Dwg feddiant Pedr sant dan sel
Drwy iawnswydd Duw a'r insel.
Dyred o wlad y Dwyrain,
Darw mawr, a bwrw dyrau main.
Rhwydd i daw rheiddiau o dan
Rhagod ; pawb a'th anrhegan.
Dos, eryr glwys, dos o'r glyn,
Iarll owchlaif, i dir Llycblyn,
Y gwr a ddwg, arwydd iach (1),
Yn ei darian bedeir ach
Tri llew glas fal yr asur,
Trwy wyllt dan a'r tair rhwyll dur (2).
Rhown ni ar y paun diwarth (3),
Rhowch rwyf ar yr hwch a'r arth.
Llyna'r tair bwyall unyd,
Lle mae'r gwaith, llu mawr i gyd.
Gollwng yn gynta gellych
Saith long a saith gan llong gwych.

(1) Le *g* de *ddwg* est *dauwynebog* (à deux visages) : il termine le mot de la coupe et commence métriquement le second membre.

(2) Prononcez *wyllt tan* et *rhwyll tur*.

(3) *Cynghanedd* fautive ; texte pas sûr ; il y a une variante *rif* au lieu de *ni*.

Dyred wrth ddamuned Mon
O'r North hyd yn Iwerddon (1).
Rhaid yw i ti, rho Duw tad,
Gael Owtils a'u galw attad.
Cyfod glod o'r Galiod glan
Cawn glywed cyn gwyl leuan.
Dyro fflam, bennadur fflwch,
Draw'n Nulun drwy anialwch.
Gwna lynges gain o longwyr
O gynfyl Gwyddyl a'u gwyr.
Tyred wr a draeturwyd
O Fanaw dir : f'enaid wyd.
Gorau arwydd gan Wyddyl
Melyn a choch ymlaen chwyl.
Urdda bensel Llywelyn,
Arddel hwy a'r ddeuliw hyn.
Galw gar bron, gwae Loegr o'r brad,
Lu Brytaen a'i lwybr attad.
Dyre i'n gwlad, dur iawn gledd,
Deyrnaswr drwy ynysedd ;
Cynneu dan cyn oed unawr ;
I oror Mon, eryr mawr ;
Cur gestyll, caerau gystudd,
Cwncwer walau cwn Caerludd ;
Cur a lladd y wadd a'i wyr,
Cyrn aur Mon, cur Normanwyr.
Dir y gwnai, darogan oedd,
Fyd teilwng o fatteloedd.
Gwna frwydr a gwaith ar grwydr groch,
Aerllew Mon, Ior lle mynnoch.
Gwaith dy law a ddaw yn ddig,
Gwyr meirw a gair ym Merwig.

(1) Certains manuscrits ont *nordd*, ce qui va mieux pour la *cynghanedd*. C'est d'ailleurs le mot anglais.

Gwna drwy'r haf, gwn droi y rhod,
Gymmynu brwydr Gwminod;
Gwna gad, fal torriad deri,
Fochno, a hyn fych na hi;
Gwna'r daith yn rhyd Glyn Iaithon,
Gwyr lawer, a Maner Mon;
Gwna naw cad yn daladwy,
Yn un modd, ag na wna mwy.
Deigr Gadwaladr fendigaid,
Dyred a dwg dir dy daid;
Dyga rann dy gerennydd:
Dwg ni o'n rhwym dygn yn rhydd.

DAFYDD AB EDMWND (*Gorch.*, p. 117).

Bid hyder o'r byd hudol
Blin ei gwrs rhwng blaen ag ôl,
Gwae ni Dduw gann na ddywaid
Gwenn i nêb pa gwyn a wnaid!
Y ddyn fwyn 'oedd ddoe'n f'annerch
Aeth yn fûd weithian y ferch;
A minnau heb law meinwen,
Ar y phordd heb air o'i phenn.
Udo'r wyf, mor fûd yr aeth,
Am y dyn o'i mudanaeth;
Collais o'i phenn bob cellwair,
Canwn gerdd pa cawn un gair;
Gwynedd ni phair ym genau,
Ganu dim os Gwenn a dau
Ni fynn fy nyn ofyn iaith,
Nid ery newid araith;
Cyfarch well, nis cyfarch hi
Caf ferch hawdd cyfarch iddi:
Nôs da yw'ch ferch nis dichon,

Nôs da itt, nis dywaid (1) honn.
Parabl mewn mwnwgl purwyn,
Pa ryw haint sy'n peri hyn?
Iesu nawd os anudon,
Yw lleshâu i allu son?
Ag os dig (2) a'i gostegodd,
A fynn bun ofyn ei bodd.
Mae y nyn a mi'n uniaith,
Ag ni chwyf ei genau chwaith :
Od ydyw yn dawedog.
Is y chwardd eos a chog.
Gwae ni fod y gwyn a fu,
Gwenn Einion heb gynanu !
O deffry aed (3) i offrwm,
Yr hynn a'i tro o'r haint trwm.
Llun ei genau'n Llann Gynin
Llysiau Mair er lleisio'i min;
Llûn i Fair fy lleian fwyn,
Lleferydd ei llaw forwynn.
Y ferch nid attebai fi
A ddywaid yn nhy Ddewi;
Aed i Fynyw bid fwynach,
Ag (4) yno Nonn a'i gwna'n iach.
Gwared a gaffo gwirion,
Gwylio saint y gwelais honn.
Dyro Grist er Duw ar Grôg,
Dy fudes yn dafodiog
I summud ferch os mûd fydd,
Yn ddifud wenn i Ddafydd.

(1) Texte *i ti : t'* est en rapport exact avec *t* = *dh*, *dywaid honn.*

(2) Prononcez *os tig.*

(3) *D* de *aed* est *Dauwynebog.*

(4) Ecrit *ac.*

Gorch., p. 147. DAFYDD NANMOR (à Rhys o'r Tywyn).

Rhys orau 'nhir Is Aeron,
Ar ei fwrdd o Ddofr i Fon ;
Gorau perchen a'r wên wiw
Ty o Adda hyd (1) heddyw :
Ty fal ysbytty Ieuan,
Fu ei dai o fwyd i wann ;
I'r tai ynghwrr y tywyn,
Fo a ddaw sy fyw o ddyn :
Pair rannu er nas prynan
Bwyd i'r byd o bedwar bann ;
Fe borthai yn ei dai da,
Wledd Rys luoedd yr Asia ;
Yn hon y dichon yn hawdd,
Badrieirch bod ar wahawdd
Fe a borthes yr Iesu
A llai o wledd ei holl lu.
Y wledd a gad yn adail,
Lleon ar wysg llyn a'r ail ;
Arall a wnaeth Caswallawn,
Yn Nhre Ludd, yn reiol iawn,
Ugain mil o fwystfiledd,
Yn farw o las pan fu'r wledd ;
Mwy'r wyl nag yn y ddwylys,
O gig rhost, gann gogau Rhys,
Tryma hyd y mae tremynt,
Tri eu gwaith hyd y try gwynt ;
Pobydd a cherfydd a chog,
A droes iddo'n dri swyddog ;
A'i fwtler yw'r pedwerydd,

(1) Prononcez *t*.

Mwya'i dasg hyd y mae dydd,
Yn dwyn ni bu newid well
Gwin at hwn o gann tunnell,
Od oes heidiau isel,
Naw cann myrdd yn cywain mel?
Ei ddwyn y mae'r ddwy ynys,
Is law'r allt i seler Rys.
Ar bob allawr yr awran,
Y gwneir côst o'r gwin a'r cann;
Ei fwrdd tâl a ddyfalwyd
Allor fawr llawer o fwyd.
Y Cymmro roddo ar ol,
Aur na bwyd er enw bydol;
Medd Garmon digon a dâl,
A bair Duw heb roi dial.
Pe bai gann mil, yn ddilys
O erydr rhif ar dir Rhys;
A thrichan gwinllan a gwin,
Ag yn malu gann melyn;
Pe bai'r ddaear yn fara,
Neu flas dwr fal osai da
Yn y wledd rhyfedd barhau,
Dwr a daear dri diau!
Pan fo'rtri llu'n dygnûaw,
Ar drom farn olifer draw;
Y telîr er nas talwyd
I Rys faint a roes o fwyd

Gorch., p. 249. MARWNAD DAFYDD AB EDMWND (Tudur Aled).

Llaw Dduw a fu'n lladd awen,
Lladd enaid holl ddwned hen;
Saer nid oes eisiau'r un dyn
Ar goed awdl na'r gwawdodyn;

Un nis cân yn îs Conwy,
Wedi myn'd mab Edmwnd mwy.
Bwrw brawdwr y gerddwriaeth
Beth a wyr neb eittr un aeth?
Bwrw Dafydd gelfydd dann gôr,
Bwrw ddoe'n un meistr bardd Nanmor,
Bwrw Deulwyn y brawd olaf,
Blodau cerdd, ba wlad y câf?
Tair awen oedd i'r trywyr
A fai les i fil o wyr;
Gweddw fu'r allt a gwydd y fronn
Gwarchae ustus gorchestion;
Gwael fu wydd, y gelfyddyd,
Gwedi'r gerdd gadair i gyd.
Cri aml sy'n y côr yma,
Cwyno dwyn y canu da;
Cell a dadl, colled ydoedd,
Cyfryw ddyn, cyfarwydd oedd;
Canu oedd well cynn ei ddwyn;
Clymu gwawd cwlm y gadwyn;
Canu fyth y cawn y fo,
Ag iawn oedd ganu iddo.
Gwae fi unig f'awenydd,
O aros awr er y sydd!
F'ewythr o waed, f'athro oedd,
Fynwes gwawd, fy nysg yd oedd;
Mae somm o'i eisiau yma
Methu'r dysg am athro da;
Mi a gollais fy'm gellwair,
A thrach gefn ddieithrwch gair.
Dafydd a wnai'r gerdd dafawd,
Dyrnod gwnn drwy enaid gwawd!
Dwyn diben dewin deubeth,
Da fu'i air nid â i feth.
Doc bwriodd haint y bardd hen,

Dwrn Dëau dyrnod awen;
Dy frawd tad ei frut yd oedd (1),
Iaith gymraeg a'th gymmar oedd;
Ei ddwned oedd o'i enau,
Ag ir oedd frig y gerdd frau
Praffa dadl prophwyd ydoedd;
Penllâd ar bob pennill oedd;
Pe doi orchest ne gwestiwn,
Ple'i rhoir wedi'r piler hwnn?
Pennod myfyrdod am farn
Pe'mrig awdl, pwy mor gadarn?
Adda Frâs oedd ef ar wawd,
Awn i'w godi'n un giwdawd:
Ni bu fyw neb fwy'i awen,
Ond da (2) fardd glann Teifi wenn,
Mab Gwilym heb gywely,
Heb iddo frawd ni bydd fry.
Yn ei fedd awen a fu,
Awen tafod yn tyfu
Dafydd ar gywydd fu'r gwaith,
Ag a ddêl o'r gwydd eilwaith;
Dyn a dyf dann ei dafawd,
Egin gwydd am ganu gwawd;
Impio sbyrs, gwmpas y bedd,
Ar ganghennau'r gynghanedd.
I'r oedd lwyn irddail ynys,
Awen a'i gwraidd, yn ei grys;
Cyhyd ag oedd y coed gynt
O benn adda bann oeddynt.
Athro oedd ef, uthr ei ddull,
Athronddysg athro henddull.
Fe ddarfu'r canu cenym,

(1) *D*, *t* = *t* (*dy frawt tâd*).
(2) *Onta* allitère avec (gla)*nn Teifi*.

Fe aeth y brut fyth heb rym!
Neb ni chan o benn y chwaith.
Wedi 'i farw wawd oferwaith;
Gweddw yw'r gerdd y gwydd a'r gôg,
Gwedi awdur gododog!
Gwnai fydr am gae neu fodrwy,
Ag ni wyl merch a'i gwnel mwy.
Anfoned o nef annerch,
O radau Mair ar wawd merch;
Gwneled Fair o'i gwen wlad fydd
Roi Paradwys i'r prydydd.

LEWIS GLYN COTHI, p. 389. (Aux Saxons de Flint.)

Daethym ddywsul diwethav
(Dyn wyv a luniodd Duw Nav)
I dre ddwbl gaer gwbl gwyrgam,
Y Flint a welwyv yn flam;
Lle'r oedd neithiawr (heb vawr vedd)
Sais aneglur, seisnig wledd.
Ar oddeu cael yr oeddwn
Herwydd creft hoewrodd crwn.
Dechreuais, frystais yn fraeth,
Ganu awdl i'r genedlaeth.
Gwatwaru, llysu vy llais;
Govid yno a gevais.
Hawdd gan borthmyn haidd ac yd
Vaddau vy holl gelvyddyd;
Ac am vyngherdd y chwerddyn'
Parod gan hawl, prid geny' hyn.
Sôn am bys Wiliam Beisir,
Sôn o'r ail am dail i'w dir;
Galw i'r vainc, gwaelwr a vydd,
O bawb am Wiliam bibydd;
Dyvod o hwn, devawd hawl,

Ger bron, nid val gwr breiniawl,
A chôd lleddv val perveddvaich,
Wrth fôn, rhwng ei vron a'i vraich.
Hyllu, synndynnu, swn dwg;
Rhwth gaul a rhythu golwg;
A throi oi gorf yma a thraw;
A chwyddo'r ddwyvoch eiddaw;
Chwerw voes! chware â'i vysedd.
A chroen glwth i chwerwon gwledd :
Yn mysg rhwtian 'mysg rhawter,
Tynu ei glôg val tin y glêr;
Froeniaw bu; frwynaw a'i ben
Ydd yd oedd at ei ddiden.
Ail sud i varcud yw vo,
Abl awydd i bluo (1);
Chwythu o'r cranc, chwith yw'r cri,
Chwyddo'r gôd a chroch weiddi;
Gwaedd hunlle'n lladd gwydd henllom
Gwaedd gast drist greg dan gist grom;
Gerwingest i grio ungerdd
Gwythi ceg yn gwthiaw cerdd.
Llais garan yn llaes gery,
Gwydd o vrat yn gwaeddi vry;
Gavr yw un llais gyvran llôg,
Glwyvus aviachus veichiog.
Gwedi darvod, gwawd oerverch,
Gwichlais hon gochelai serch
Cael fis o Wiliam, cael fa;
Lardies nid o law wrda;
Ceiniogau lle'u cynnygian',
Ac weithiau'r dimeiau mân;
A'm gollwng yn drablwng draw
O'r goegwledd yn wr gwaglaw.

(1) Texte incorrect.

O ddivriv rhov ddïovryd
I Flint gaeth a'i phlant i gyd ;
Ei fwrn vaith val ufern vydd,
A'i phobl seisnig a'i phibydd ;
Vy holl weddi vo'u lladdiant,
Vy melltith i'w phlith a'u phlant ;
Diau ym oes od âv mwy,
Iddi eilwaith na ddelwy'.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 293).

Y bardd bach uwch beirdd y byd,
Och ! nad ydych yn d'wedyd !
Gryffydd braff, graffaidd brophwyd,
Gweddw yw'r iaith : a'i 'mguddio'r wyd ?
Ba dir hwnt o bait y rhawg,
Bwrdd yr iaith, bardd Hiraethawg ;
Dewi'r beirdd, nid o air bost,
Dyblwr iaith, Duw, ble'r aethost ?
Os i ryw daith, drudfaith dro,
Ond hir yr wyd yn tario ?
O Duw deg, od ydwyd iach
Ddiball, p'am na ddoi bellach ?
Os claf brophwyd braf ei bryd,
Claf yw addysg celfyddyd.
Od aethost i le dethol
Y gwawd a'r dysg aed ar d'ôl.
Hiraethog ddoeth, o doeth d'oes,
Hiraethog fydd rhai wythoes !
Ni welais gam o'th dramwy
Er ys mis nag er ys mwy ;
Gelwais arnad gloes oerni,
Och Fair na attebych fi !

Y Marw yn atteb :

Ni ad ty (1) bedd atteb ym'
Am rann iaith marw a wnaethym
Ti a'm gwelaist ym golud,
Ddoe yn falch a heddyw'n fud ;
A'r pwyll, a'r synwyr a'r penn,
A'r cellwair ynghôr collen
A gro'r llawr, îs goror llann
Osodwyd, lle bu sidan.

Y byw yn atteb :

Tyred yma, torr d'ammod,
Drwy dorr y clai, daradr clod :
Ymrwymaist fardd, brau hardd bris
Yr wyl, a'r doctor Elis.
Od ydoedd i'th fryd adael
Y gwr hwn a ddug air hael?
Ond oedd dost diwedd y daith,
Na chanid yn iach unwaith?

Y marw yn atteb :

Nid oedd modd yn y dydd mau
Y dringodd rhyw daer angau ;
Mewn gwarchae'r mann a gyrcho
Eryr gwyllt ar warr gelltydd
Nid ymgel pann ddel ei ddydd ;
A'r pysg sydd ymysg y mor
A ddwg angau'n ddigyngor ;

(1) *Ad ty* : prononcez *at ty*.

Y byd oll be deallwn,
A'r y sydd a erys hwn.
Aristotlus fedrus fu
A'r ddysg oll urddas gallu;
Tydain ail tâd awen oedd,
Taliesin teulu oesoedd,
Pob un aeth, mae pawb yn wâr
Ar ei ddiwedd i'r ddaear;
Minnau nid oes ym annedd
O'r byd ond fy hyd o'r bedd.

Y byw yn atteb :

F'athro Gryffydd, o'th guddiwyd
Mewn arch oer di'mannerch wyd;
Gorwedd ir wyd mewn gweryd,
Gryf wraidd benn digrifrwydd byd
Ond irad myn'd i orwedd,
Awen y byd yn un bedd!
Gwiail a gad, tyfiad da,
Yn wydd o enau Adda;
Doeth fardd, felly daw o'th fedd
Ganghennau'r groes gynghanedd.
Yn iach yn d'ôl, ni chawn di
Ystyriaeth, chwedl na'stori;
Ni cheir marw, ni char morwyn,
Ni thy fyth gwmpniaeth fwyn
Och, gloi'r fedd iach gelfyddyd!
Och, roi barn ar achau'r byd!
Beth a dyf, byth o dafawd?
Blino ffrith gwydd, blaen ffrwyth gwawd;
Bwrw gwingoed, brig awengerdd,
Braenu un cyff brenin cerdd,
A thy dadl fyth od ydyw,
Odid farn am nad wyd fyw.

Ba fyd ar gerdd seinwerdd sydd?
Byd traffol hebod, Ryffydd;
Daearwyd gwawd eur deg wedd,
Ni's daearwyd nes d'orwedd;
Duw a'th ddug ych bon gwych gwâr,
Is y cwmm eisiau cymmar.
Gwnn na bu er Gwion bach
Gau ar synwyr gresynach.
Llai cefaist, lleddaist ni'n llwyr,
Oes a henaint na synwyr.
Crist roes yt einioes ennyd
Crist a'th ddug hardd benn bardd byd;
Crist enw rhawg gras Duw i'n rhaid,
Ceidwad dyn cadwed d'enaid.

II

ENGLYN PROST CYFNEWIDIOG.

DAFYDD AB GWILYM (p. 327).

Gwae fi weled, trwydded drwg,
Neuaddau milwr twr teg,
Annawn oes, un yn ysig,
A'r llall do gwall, yn dy gwag.

Id., page 328.

Nid diofal ffurf dal ffer
I'r gelyn a wnel galar;
A laddo ddyn a'i loyw-ddur
I luddias hoedl, fo leddir.

DAFYDD AB EDMWND (*Gorch.*, p. 103).

Eurfab i Iôr erfai bwyth,
Aer Lywelyn aur lewlaith;
Wyr Dudur yw'n mur a'n maeth,
Etifedd gynt Dafydd goeth (1)

Doethach, i'w y daethum,
Doethryw, ynad yw, na dim;
Da agwrdd rudd, dihagr ddrem,
Dysg a roes dewis gwr ym'.

Id., p. 220, trois strophes terminées par des monosyllabes.

GUTTYN OWAIN (*Gorch.*, p. 189).

Cynhaliad ffrwyth pob gwythen,
Yw gair teg o gariad dyn (2);
Ar dy wefus a'th gusan,
Y mae oes hir ym y sôn.

Efa bryd fu i brydydd,
Annisyml wyf, nes ymladd;
Cwyno ei boen, cyn y bedd,
Dduw 'ddwyf, pan ddioddefodd.

(1) t = t, D dans etifedd, gynt Dafydd.
(2) D + d = t.

LEWIS GLYN COTHI (p. 97).

O Wynedd y mae i'wch ennill,
O ddwy Went arvau'n un ddull,
Tri phen saeth a aeth uwch oll,
Tri phen blaidd un wraidd yn well.

Id., page 133.

Y mae i rhai'n hyd y môr hwnt
I'r cadben a'r Lutenont;
Mawr yw yn Nghymmru ei rent,
Mwy yw iddo y meddiant.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 266).

Nai syr Rys, neshâu yr wyd
I roi gwin ag o ryw gwaed;
A'th wraig o lwyth blaenffrwyth blaid
Aeres Gruffydd, gwinwydd goed.

Id., page 274.

Amryw enwog mawr winwydd,
A mawr enw am a rannodd!
A mawr iawn ymro Wynedd,
Am roi i weiniaid Meirionydd!

Pour le *prost cyfn. chwebann* et plus, v. p. 145, 164.

III

PROST CADWYNOG.

DAFYDD AB EDMWND (*Gorch.*, p. 107).

Rhys orau mab rhyswr Mon
Rhull waywlorf rhyw Llywelyn ;
Rhydd Dudur wyr Ddafydd Ion,
Rhwydd Ddafydd hil rhoddfydd hyn.

GUTTYN OWAIN (*Gorch.*, p. 201).

Y fendith drwy gyfiawnder
A gafas Nudd ag Ifor,
Ar Ddafydd, rif sydd o ser,
Ag a roir mwy na gro'r mor.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 259).

Mynd er gwann i'n mwyndir goed,
Mae yn dy law, mynn Duw lwyd ;
Minnau'n glâf, mynnwn gael oed,
Meinwen gorawen gwyr wyd.

LEWIS GLYN COTHI (p. 424).

Y byd aeth, heb wâd, weithian,
Tanad Grufydd y tynwn ;
Trwy weywyr trawai Ieuan,
Tydi'n (1) ol tad annelwn.

(1) Texte : *yn ol.*

Id., page 453.

Ei glog val rhyw varchog vydd
Yn aur a'i wn yn un radd,
Ar lyvr Dwned Maredydd
Wedi wisgo y dysgodd.

TUDUR ALED (*Ceinion*, I, p. 347).

Drwy Fablon yn afon wyllt
Dy waew i'n mysg yn dan mellt
Dod in' hwp, d'adain a hyllt
Dynflaidd wyt, yn fil o ddellt.

IV

CYHYDEDD FERR.

LEWYS GLYN COTHI (p. 256-257, douze strophes).

A phenadur du fynedig,
Am oludoedd canmoledig;
Ag o dewrder lys gadwedig;
Ag o ldwal oedd wisgedig.

Pob rhyw adar purpuredig
I'n a nodant yn enwedig;
Sy o vwydau yn savedig
A gai wawdydd vai dysgedig.

Yn vyw rydain yn vawredig,
Yn vawr eidion yn verwedig,

Yn veirw adar yn veredig
Yn vor adar yn vriwedig.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 260).

Dy liw eurvawr yw'n dolurion,
Doe i'th elwais o'r detholion;
Delw o'i mebyd a wyl meibion,
Delw wenn obry dwy lann Ebron.

V

CYHYDEDD NAWBANN.

LEWIS GLYN COTHI (p. 27) (1).

Mae y meistr mau mewn tyrau'r tad
Mwnai'n ei ogylch mwy no Newgad
Meirch a gweywyr onn yn mraich y gâd,
Mwy no rhiv y plwyw mewn arvau plâd.

Mae meistres Alis mewn twr caead
Mwnai a thrysor main a thrwsiad
Hi a wisg ddywllun ddamasc ddillad
Siamled o velved un ddyvaliad.

Ag (2) o arwedd aur uwch grudd a iad
Ag a wisg garlond ag ysgarlad,
Ag a eilw Iesu am oes gleisiad
A naw oes y dwg hono ystâd.

(1) Priodasgerdd i Rhobert Whitnei (Epithalame).
(2) Texte : ac, ainsi que dans les deux vers suivants.

Mastr Rhobert hael a eilw Elvael wlad,
Meistr yw yn rhoi ym ystôr yn rhad;
Mae'n Ustus cyviawn yma'n wastad,
Mae yn eiste ar swrn o'r mastr Siad.

Ni bo a brovo iddo ddim brad,
Ni bydd dragywydd achos, nis gad;
Tra llong ag angor ar vor neu vâd,
Tra vo lliw awyr tra vo lleuad.

Mae'n llys yr arglwydd, pawb a'i gwyddiad,
Hynsmen a Ywmen yn ddiymwad,
Cwrseriaid euraid yn gweryrad,
Cyrn bwa i ryvel, ceirw yn brevad.

Milgwn yn Whitnai, can' bytheiad,
Cynyddion ddigon yn ddiwygiad;
Ceginau Ystwyll, cogau'n wastad,
Bwtri, seleri, seiri'n siariad.

Ac o'r llys gwerin yn chwerthiniad,
Ag o'r twr canwr heb gael cenad,
Ag o'r wraig egin a llin benllad,
Ag o'r gwr eppil a hil a hâd.

VI

HUPUNT BYRR.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 262).

Ymhob ieithiau
O gur deithiau y gwyr doethion,
Ar bob llanerch
A gar d'annerch gwawr y dynion.

DAFYDD NANMOR (*Ceinion*, I, p. 164, douze syllabes).

Megaist ofn mil myrdd megis Dyfnwal Moelmud,
Mal awch awyr taran nawmil a chwarterud ;
Miloedd ni'th arhoent mewn ymladd o tharawud,
Mwy na llu adar yn y man y llidud.
Ni bu wayw a chalon neb ochelud ;
Ni bu lewach calon, ni bu lai awch cilud ;
Ni bu gawr a safn wyneb y gaer y safud ;
Ni bu'n oes y cewri un byw nas curud,
Neu belydr nas arhoest ni bu leidr nas rhestud ;
Ni bu leisiau gloywon na blisiau a glowud ;
Ni bu o'r oes hon wynebwr well ei sud ;
Ni bu'r gwr a wnelai er bwrw'r gwyr a wnelud ;
Ni bu i'n oes hyd hyn | un bwa nas tynud (1) ;
Ni bu wr a fwriai'r un bar a arferud ;
Ni bu hen Syr Hywel na neb nas arhoud ;
Ni bu wn er teir oes, ni bu wayw nas torrud.

VII

HUPUNT HIR (v. *cadwyn fyrr*).

IOLO GOCH (p. 530-534).

Crist audi nos,
Craton Kyrios,
Rag (2) ymaros | ryw gamwryeu ;

(1) Texte : *yd yn hyn*, faux ; une syllabe de trop : *hyd hyn* = *hyt yn* et rime avec **tynud**.
(2) Ecrit *rac*, de même *rac angeu*.

Agnus, leo
Alpha et o
Deus homo | dioes ameu ;
Rex redemptor
Reit ytt hepkor
Iawn ryw gyngor ynn rag angeu.
Ef ny ebet
Ef ny anet,
Ef ny welet | yn iawn oleu.
Ar for na thir
Ef ni welir
Ef yn ddyir | ef yn ddieu.
Ef yw'r dial
Am yr aval
Un anwadal | y annwydeu.
Ef yn uchel,
Ef yn dawel
Ef yn issel | ef yn asseu.
Ef oe awydd
Yn gyfarwydd,
Ef yn ebrwydd | ny vyn obreu.
Yn bwhwman
Yn dra buan
Draw ag yman | drwy y gameu.
Ef ny bydd hyn
Yn y vlwyddyn
Ny wybydd ddyn | ef ny bydd ieu.
Ac ef a grynn
Ac ef ni rynn
Ac ef a dynn | ac ef a deu.
Nyt llesc lle del
Nys llysc uvel (1)
Nys lludd oervel | nys lladd arveu.

(1) Texte : *envel*, var. *euvel*.

Nys beidd llwfyr,
Nys ery dilwfyr
Nys bawdd cleuddwvyr | nys beidd cleddeu.
Nys ret yn dwys,
Nys gorffowys
Nys daw kynnwys | nys dwc heinyeu.
Nyt marw nyt byw,
Nys gwnn beth yw ;
Dyn nys erglyw | dan eis oergleu.
Nys gwlych kawat,
Nys gwyl llygat,
Yn gwir iawn dat | an gwarendeu.
Gwir vrenhin nef
Yr dy dangnef
Yr dy oddef | yr dioddeu ;
Yr dy loessyon
Yr dynyadon
Yr dy goron | wrda goreu ;
Yr dy gystudd,
Yr dy gythrudd
Ieith loewrudd | a'tholuryeu (1).
Yr dy unpryt
Yr pobyl y byt
Yr dy benyt | yr dy boeneu ;
Yr dy gynneddyf
Ar dengeir deddyf,
Wr diweirgreddyf | yr dy wir greu ;
Yr dy seint oll,
Yr dy archoll,
Yr dy vronnholl | yr dy ureinheu ;
Yr dy goddet
A'th vronn waetlet,
Wr diweirgret | yr dy wir greu ;

(1) Pour *a'th ddoluriau* (fréquent).

Yr dy bryder
Ar dduw gwener
A'th wiw leuver | a'th welieu;
Yr dy ganmawl
Vrenhin nefawl
Athro gwrawl | a'th ragoreu;
Moes ym deall
Y wrthladd ball,
Ior diweirgall | yr dy wir greu.
Hynn a vynnaf
Hynn a gaffaf,
Hynn a geissyaf | hoew negesseu;
Nawdd y wirgroes
A nawdd Itloes
A roi ym oes | mi a'r rei meu (1);
Nawdd Maria
A nawdd Anna
A seint Assa | a santesseu;
Nawdd seint Enlli,
A nawdd Kybi,
A nawdd Dewi | Nudd y Deheu;
A nawdd Ieuan
A nawdd Katuan
A nawdd Sanan | Nudd y Seinyeu;
Nawdd Mihangel
A nawdd Gabriel
A nawdd Uriel | y nawdd oreu;
Nawdd seint y byt
Ym kymhlegyt
Y ymoglyt | rac y magleu.

(1) A corriger probablement en : *a roi ym moes y'm a'r rhei meu*; var. *a rhoi ym moes un a'r rhai mau.*

VIII

CLOGYRNACH.

GUTTYN OWAIN (*Gorch.*, p. 202)

Aur fynychle yw'r fynachlog
A'i chor sy well na Chaer Sallog,
A drud dorriadau,
Y dail ar delwau
A lleisiau lliosog.

Adeiliadaist, Dduw dyledog
A theg crysau i'w thai croesog (1),
A brynodd brenin
Cywaethog ei win
Ail ei sin neu bowls enwog.

Aur ty Iesu a'r tywysog,
A gyfrennir yn gyfrannog;
Y gwaith maîn a'r gwydd,
Yr â a llys rhydd,
Os Dafydd sydd swyddog.

O foliannau nef fal Enog,
Y pwysai fydr Powys fadog:
O eiliad Iolo,
Ar fawl y gwyr fo
Weddio'n addefog.

(1) Theg crysau = *thecrysau.*

Ei dy addas glân diddos glôg,
A'i nenn gywraint a wnai'n gaerog ;
Yr haul yn y rhiw,
A'i adail ydyw
A gwynn lliw fal gwenn llôg.

Oes rhyw faenwaith îs Rhyfoniog,
A'i wenllys hoyw win llysieuog?
A'r byd o'r bwydau,
A gair o'r gorau,
A geiriau trugarog.

O bedwar cwrs yw bwydau'r côg,
A'n gwirodydd o win gwridog;
Ei lynn fal ynyd,
I bob rhai, bob pryd (1)
Oedd hefyd fedd hafog.

Arglwydd grasol, gwleddau gwresog,
A gar dynion yw'r gwr doniog;
Y Gwr i'w garu
A roes yr Iesu
I'w adu'n hir oediog.

William Llyn (p. 263).

Lle'r wyd beunydd lliw'r ôd banon
Llyma rinwedd llu morwynion
Llawenydd llannerch,
Llyna sain llawn serch,
Llerch annerch | llwch hinon.

(1) Prononcez *I boprhai*, *bopryd*.

IX

TAWDDGYRCH CADWYNOG.

LEWIS GLYN COTHI (p. 135).

Sirig arian sy ragorau
I'r sant gorau o'r saint geirwir;
Sel a tharian sy lwyth orau,
A sias voreu i Sais a vwrir;
Sarf gwirodau,
Saiv ddevodau,
Sy ammodau ni symudir;
Sant aelodau
Sul y blodau
Sydd aelodau swydd Elidir.

Tiriawg ydoedd, tarw i gadau,
Tyr vwriadau trwy ei vrodir;
Tarian bydoed, twrn heb wadau,
Teg ei radau, hwynt a gredir;
Tad caredig,
Tai rhwymedig,
Tervynedig, trev a nodir;
Teyrn gweledig,
Tref gadwedig,
Twr cauedig, traw y cedwir.

Miragl solas, mawrglos Eli (1),
Mab i Veli'n mhawb a volir;

(1) C'est ainsi que la strophe est scandée dans l'original. L'autre scansion est la plus usitée.

Mur Nicolas, yn marn Celi
Yn mor heli lle'n rheolir (1);
Mab darogan, mwy'r annogan,
Yw Mynogan o manegir;
Mab Llellogan (2), medd dysgogan,
Mur diogan, mawr y dygir.

Gwirdda adain (3),
Gair a dd'wedai,
Ag (4) a redai dros pob grodir;
Gwr goradain,
Gwir a gredai,
Gwir a dd'wedai, garw y ddeudir;
Gwin drwy'r Veri,
Glyn Mieri
Gwyr i beri'r gwyr a burir;
Gwên Eleri,
Gwlad Pryderi,
Yw gwraidd deri, gwrdd o dirir.

Diriai Liwlad, blaid i'r lili,
Ei dwr Fili, draw o faelir;
Dar y wiwwlad, a drwy Wili
Aed aur Ili, ev a dreulir
Dôr meddiannus,
O Yscanus,
Da moliannus, od ymlynir
Du meddiannus,
Un llwyddiannus,
Du oedrannus, nis didrainir.

(1) Texte : *lle i'n rheolir*, ce qui donne une syllabe de trop.
(2) Probablement *Llallogan* (texte : *lle llogan*).
(3) On peut encore scander ainsi.
(4) Texte : ac.

I'r hael yn rhwydd (1),
Y rhol yn rhydd,
A sel y sydd i'r sawl sy wir;
Er Sais drwy swydd,
Er sias dros wydd,
Ei swydd y sydd | dros wydd | y Sir;
Un iarll ni wnai
Yn ol a wnai;
Y dyn nid âi | na'i dai | na'i dir;
Aed Iarll i'w dai
Am ael mis mai,
Y gwin a gai | ag (2) iawn a gwir.

DAFYDD AB EDMWND (*Gorch.*, p. 104).

Urddas Beli wrddais bolion
O urddolion awr ddialedd,
Ar draws heli, aer drosolion,
A thraws holion aeth Rhys hywledd
Iawn ei huriaw
Wrth ddoluriaw
A'i lân duriaw | alon diredd
Wedi curiaw
A doluriaw
Aerau dduriaw | o'i wir ddewredd.

GUTTYN OWAIN (*Gorch.*, p. 189).

A Duw ddwyfol od addefais
Arno llefais, orn a llifiad;
A mi'n nwyfol ym anefais,
Aml a gefais fal mel gafad;

(1) Ici, pure strophe de *hupunt hir*.
(2) Texte : *ac*.

Iawn im ganu
Am gusanu
A'th ddiddanu | oth adduniad
Er fy ngwanu
A'm goganu
Ag amcanu | drwg ym cennad.

X

CYHYDEDD HIR.

DAFYDD AB GWYLIM (p. 349).

Trugarog frenhin
Wyt Tri cyffredin
Ac un cyntefin | Dewin diwad!
Ateb a draethaf,
Atat y trosaf,
Iti cyffesaf | naf nefolwlad!
Ac i Fair addef
Tangnefedd dangnef
Ac i holl saint nef | nifer difrad,
A'm holl fyfyrdawd
A'm holl hyawdlwawd
Ac a'm holl geudawd | barawd bwriad.
Canys gwn yn wir
Mewn byd anghywir
Ynghyflwr anwir | , dihir dehad,
Fy mod yn awdur,
Fy nuw benadur
Yn fawr bechadur | o natur nad,
O air anniwyd
A meddwl dybryd,

A gweithred hefyd | i gyd a gad
Cenfigen, balchder,
Rhyfyg creulonder,
Gwenwyn tra digter | fy ner neirthiad
Cybyddiaeth trais, twyll
Cynghorddyn crybwyll,
Chwant rhithiau amhwyll | cymwyll drychiad;
Camgerdded, ceisio
Goganu, tybio,
Meddylio yno | tro trwy fwriad;
Clod orwag wawdwl,
Cenfigenu'n bwl,
A chelu'r meddwl | fwgwl fagiad;
Meddwdod diwyneb
Methiant glythineb,
Godineb, cudeb | cadarn-ledrad;
Traha, camfalchedd,
Diogi, llesgedd,
Maswedd aniawnwedd | moes anynad;
Coelio breuddwydion.
A chyfareddion,
Rhuddo gwaed gwirion | anudon nad;
Gorwag feddyliau
Cellweirus gredau,
Oferion lyfau | geiriau girad
Gweithio gwaith diau,
Gwadu gorchmynau,
Gwyliau a suliau | , gwael y seiliad;
Cymryd dros gynghor.
Bwyd anmhryd ragor,
Mifiliau cytgor, | por perffeithiad;
Dirmygu heb dawl,
O chwant corphorawl,
Gwasanaeth dwyfawl | Duw deddfawl-dad;
Bod yn aflawen,

Goganu'n absen
Sarhau meibion llên | o'r ben raddiad;
Gosteg anghymwys
Ym mhlas yr eglwys,
Bod yn anghyfrwys | ddwys ddeisyfiad;
Tori gorchmynau
Ac iawn gyneddfau.
A gair diammau | Duw diymwad;
Hyny, Duw, y sydd
Rhag dirfawr gerydd
Edifar beunydd, | llywydd llead!

IOLO GOCH (p. 470-483).

Même système que chez Dafydd ab Gwilym : de grandes ressemblances de texte, souvent mêmes expressions.

DEIO AB IEUAN DU (*Gorch.*, p. 168).

Ni welais i lys
A dwy a degllys
Ni welais i lys | mor lwys ednig.
Y Llys a hoffaf
Er lles i'w phennaf,
Nid llaes i molaf | mal Celliwig
Yn llwyr degwch nef,
Yn llawr Bachelldref,
Yn lle bydd dolef | bob nadolig;
A darllain llyfrau,
Llin brenhinllwythau
A chanmawl achau | ucheledig;
A gwybod teiriaith,
A chlawr y gyfraith

A grwndwal pob **iaith** | yn **weithredig** ;
Ag amlder bwydau,
Melys gwyrdebau,
A thrymmion **seigiau** | wiw **suwgredig** ;
A chynnal priflys,
I'r holl ynys
Ysbys nad **tybys** | un lle **tebyg** ;
A llys cyfanedd,
O barch a mawredd
A rhywiog fonedd | **diagwedd dig** ;
A phorthi breisgfeirch
Ar wair a brasgeirch.
Dofi ebolfeirch | **meirch mynyddig** ;
A milgwn hirion,
Cipiaid gafaelion,
Huaid trwyn fyrrion | **cigyddion cig** ;
A thrydar paunod,
A grwn c'lomennod,
A gwg alarchod | **eleirchedig**,
A descant adar
Tradoeth eu trydar
A gwiw iaith lafar | **tra afar trig** ;
A llu o geraint,
A llynn tra meddwaint
A llawenhau **braint** | **bro** hil Feurig ;
A lliwgoch baladr,
Gan lin Cadwaladr,
A llafngwaed rhaiadr | **coelfeingadr cig** ;
A llif gwirodau,
A llef gann dannau,
A llafar gerddau | gorddwfnedig ;
A llawen crythawr,
A llawer cerddawr,
A llawenydd mawr | uwch **llawr llithrig** ;
A thrydar meibion,

A thro cerddorion,
A thrabludd gweision | gosymddeithig;
A thrallod cegin,
A thrulliaid trablin
A thri lliw ar win | i wan blysig;
Tair cynnydd y sydd,
Tirion lawenydd,
Ar bryflys Dafydd | ,difefl ryfyg :
Newydd o fwydydd,
Henaidd ddiodydd,
Croesaw hir beunydd, | cwrs arbennig.
Pa ddyn bynnag fych,
Pa gerdd a fedrych,
Gyd ag a nodych | yn enwedig;
Tyred pan fynnych,
Croesaw pan ddelych,
A chwedi delych | tra fynnych trig.

LEWIS GLYN COTHI (p. 29).

Nid gwaeth ar draethen,
Tai Nudd Whitnai wen,
No thai elusen | a wnaeth Lasar;
Nid ynt waeth ill dau,
Am win i minnau,
No blodau'r Deau | drwy holl daiar.
Rhwyddach eu rhoddion,
O law hwn val hon,
No dwr yr avon | i'r gwirion gwar;
Teg oedd anrhegu
Aur i Vair a vu
I weled Iesu | o Valdassar;
O'u mwn aur a'u medd,
O'u da ill deuwedd,
O'u gwledd ni'm gomedd | y ddau gymmhar;

Rhent o'u tir hwyntau
A gawn, a gynau.
Amryval lysiau | bwydau ar bâr.

XI

ENGLYN UNODL UNION.

DAFYDD AB GWILYM (p. 7).

Da rhed ar wared | arw oror — olwyn
Neu'r wylan ar rydfor
Deuwell y rhed, buddged bor,
Diwyd wyf, dy wawd, Ifor.

Os da plethiad mâd | ym mor — o hirwlych
Am herwlong raff angor;
Gwell y plethaf, ddewraf ddor,
Gwawd y tafawd yt Ifor.

Ni thyf caen Llenmaen, | llanw mor — rhyferthwy,
Rhwyf Arthur, neu Hector;
Mygr ateb ddihareb ddor
Mal y tyf mawl yt, Ifor.

Cyfyd yt hawddfyd, | f'addien bor — genyf,
Ag anwyl hawddamor;
Cad ddychryn darf ddur arf ddor
Cedyrn ofn cadarn Ifor.

IOLO GOCH (p. 663).

Coffa ben a llen a llywenig — lys
A las nos Nadolig;

Coffa golwyth Amwythig
O dan a neidiodd naid dig.

I Riccard uch Olwin arglwydd Dinas Reidin.

Ni chiliodd Richard | uch Olwin — eurglod
Arglwydd Dînas Reiddin
Vylchiwr câd vaeddiad vyddin
Erioed led i droed o'r drîn.

Page 665. — *Englyn ar Feddfaen D. ab G. ym mynwent Tal-y-Llycheu.*

Hardd lasnen ywen | llwyn Eos — Dyfi
Mae Dafydd i'th agos;
Mae'n y pridd y gerdd ddiddos
Diddawn yw pob dydd a nos.

Dafydd ab Edmwnd (*Gorch.*, p. 102).

Clawr Gwynedd glas gledd | glos glan glwys — wewyr
Glod eryr gloyw ei darian;
Gwrdd yw Rhys, garw ddur hosan,
Gwres mynych les, Mon achlân.

Llaw wir, Ion heudir | yw'n hydab — osgordd
Ymhob ffordd botffordd bab;
O'i rwydd-don a roe rydd-dab,
I'w roi yn fudd, er yn fab.

Dans le premier englyn, le mot *achlân* n'est pas en contradiction avec la loi de l'accent : *hósan* a l'accent sur la pénultième; *achlân*, sur la dernière.

DAFYDD NANMOR à RHYS O'R TYWYN (*Gorch.*, p. 150).

Anhawdd bod hebod | uwch ynys — dywyn
Deau, Gwynedd, Powys;
Y mae'n oll mewn ewyllys
Yn dri llu yn dy dair llys.

Llys i'r holl ynys | yn rhoi llynn — ag aur
Ag arian a berthyn;
Lletty ieirll o bob lle tynn
Llu daear oll i Dywyn.

GUTTYN OWAIN (*Ibid.*, p. 200).

Oediog fo'r enwog o fronnydd — y Groes
Mewn gras a llawenydd;
Oedran addaf ar Ddafydd,
Y rhoer, y fwyalch a'r hydd.

TUDUR ALED (*Ceinion*, I, p. 347).

Syr Bwn nerth dragwn | wrth drangc — y deyrnas
Dyrnod syr Rhys ieuangc;
Sarff cryf syr waew Ffwg crafangc,
Syr Rhys ffraw ar asau Ffrangc.

Cyrch Ffraingc i'w thalfaingc | wrth wys — neu farddas
A wnai Fyrddin Emrys;
Ag enw groeg yn y gwregys,
Yn amser An am syr Rhys.

LEWIS GLYN COTHI (p. 44).

Olau dy leiviau | val dail îr — ar wydd
Arweddiad byth yn hir;
Olau dy veirch a welir
Hyd yr aeth oll dwr a thir.

Dwr yn wir a thir | i'th ol, — a nadredd,
Y neidr o Gaer Lincol;
Ni thrig y rhai dig ar d'ol
Na'th gonyn tu a'th ganol.

Canol llu breiniol, | barwniaid — drichant
Dyrchaiv groes vendigaid
Cenyd o radd cawn dy raid,
Veirch a gwyr varchawg euraid.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 273).

Bon gwreiddiau Nannau | uwch naint — a brynniau
Breinied Duw a'r hollsaint;
Beth i'r brig, byth a yrr braint?
Bodhyn a byw at henaint.

At henaint oed saint | dan sel — goreuffawd
Aed Gruffydd ap Hywel;
A dringed y dewr angel
A gras Duw ymhob gris dêl.

Reprises de *at henaint;* de même, dans les strophes qui suivent.

ENGLYN CRWCCA.

Mêmes lois.

XII

TODDAID.

DAFYDD AB GWILYM (p. 8).

Ner byd, wryd bedeir | oror — giwdawd
A naf olygawd nef oleugor,
Neirthiad fo efo | ar for — a llawr llen
Nen y ffurfafen i ffurf Ifor!

Newidiwr trwsiwr | trysor — y moliant,
Normant glud goddiant glod egwyddor;
Naddiad arf oergad | deirf eurgor — Eingl giawdd,
Nawdd mur a rwyfawdd Mair ar Ifor.

Toutes les strophes ont quatre vers : chaque vers de la strophe commence par la même consonne, excepté au deuxième vers de la première strophe. Dans la deuxième strophe, le troisième vers commence par *a*, qui ne compte pas, étant enclitique ; la consonne suivante est *n*, qui commence tous les vers de la strophe.

Page 324. Même système, avec plus de variété à l'initiale. Généralement, au premier vers, on a plus souvent la *cynghanedd* vocalique.

LEWIS GLYN COTHI (p. 46).

Pan ddelon' veilchion i vylchau — lle y bych
Edrych a'u gwelych yn lle golau;
Ymogel, angel! | rhag angau — trwy dwyll,
Gwell pwyll nog amhwyll ar ryw gamau.

SION TUDYR (*Ceinion*, II, p. 103-104).

Angheuol yw'r byd, | anghywir — yw'r daith
Y gau lawer gwaith a gâ le'r gwir.
Gwyr yr eglwys lwys | a lysir — am chwant,
Ariant a gadwant ag a'u gwedir.
Bugeiliaid deilliaid a dwyllir — rhoddion
Angylion, person tyn y pyrsir;
A'r bugail di sail dwys holir — am hyn,
Y Cnu a ofyn ac a'i cneifir.
Fe a'r blaidd truanaidd | at'r wyn — i geubant.

DAFYDD NANMOR (*Gorch.*, p. 154).

Mab Rhys aeth o'i lys | i lawr — yr Erwlg,
Mewn gro a cherrig mae'n garcharawr;
P'an aeth, gwrolaeth | ar elawr — o'r llys
Bu bobl ei ynys heb eu blaenawr.
Aeth braw am guddiaw | egwyddawr — pobloedd
A dagrau miloedd hyd gwrr Maelawr;
Aml rhyngom och drom, | dramawr — o noddef
A gwae a dolêf, gyd a'i elawr.

XIII

GWAWDODYN BYRR.

IOLO GOCH (p. 269).

Da iawn fu Fordaf naf nifeiriawg;
Da fu Nudd o fudd wrth anfoddawg;
Da fu Run ei hun | fu heniawg — o serch;
Da fu Rydderch gwr ardderchawg;

Os rhaid manegi pwy rhi yrhawg :
Dafydd ap Bleddyn yw'r dyn doniawg,
Gwr perffaith iawn waith | enwawg — sancteidd bryd,
Gwr o lwyth Uchdryd, nid bryd Branawg (1).

DAFYDD AB GWILYM (p. 320-321).

Ni chân fy nhafawd wawd wenieithaidd,
Ni chair llinodr wr yn ochr lluniaidd,
Ni chel i Hywel | loyw garuaidd — lwybr,
O bu'r ddawn ewybr barddoniaidd
Neirthiad a gefais didrais dwy draidd,
Ni'm gâd gan ruad gad gymroaidd,
Nis erfyn o brudd | ac nis arfaidd — draw
Naw o praw lidiaw, ner preladaidd.

DAFYDD NANMOR (*Gorch.*, p. 151).

Oesed yr unduw y sy Drindod
Yt gyd oesi a'th wraig brïod;

(1) A corriger en *bradawg*.

O'ch meibion o hon | cewch hynod — wyrion
A mil orwyrion mal eryrod.
Anos, ddydd a nôs, wrth ymosod
Yw taro wrthych, na'r twrr arthod ;
Ofer dann faner | i fynnod — gwladoedd
Ymwasg a lluoedd ymysg llewod.

TUDUR ALED (*Ceinion*, I, p. 348).

Ni phery onen yn ei pheirianau
Dan d'ewin ddyrnod ond yn ddarnau ;
Ewinawg osawg | asau — braich a bron
A nyddai linon yn ddolenau.

LEWIS GLYN COTHI (p. 34).

Lle y rhoddo'r gwalch balch vlaen ei big
Y ffy'r adar yn gyffroedig ;
Ein hebog nid oedd | annhebyg — benrhaith (1)
Hwn nid â ymaith o'i hen dymhig.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 268-269).

Awn ar frys i'th lys a'th ddilyswch
Mal yr â o'r glynn gwenyn i gwch ;
Chwithau gwrdd gorau | gerdd garwch — trwyadl
Gyda chywirddadl a gyd chwerddwch.

(1) La coupe dans le vers à *toddaid* de dix syllabes est toujours à la cinquième syllabe comme nous l'avons vu. Quand elle n'y est pas, on peut conclure à une faute. Ainsi pour ce vers de Daf. Nanmor, *Gorch.*, p. 152 :

Nid un dadau yn iau, | wr nod a mannau

est à corriger en :

Nid un dadau'n iau | wr nod a mannau.

XIV

GWAWDODYN HIR.

IOLO GOCH (p. 274).

Gwr dwyfawl i hawl hwyl anlufoddawg (1)
Gwr celfydd dedwydd a godidawg
Gwr atto meir gair gorfodawg
Gwr iawn hoiw radlawn 'n hirhoedlawg
Gwr hyborth i borth | aberthawg — gwisga
Gwrda'n lle Assaf iawn lluosawg.

DAFYDD AB EDMWNT (*Gorch.*, p. 107).

(Cité par J.-D. Rhys.)

DEIO AB IEUAN DU (*Gorch.*, p. 172).

Meredudd ddeurudd y cerddorion,
Arno, gwyl Iago mae golygon;
Gwirod taladwy a gae'r tlodion,
Gwîn, osai a fydd gann ei weision,
Gwin o Gaerfyrddin | i feirddion — a chlêr
Gwedi ir haedder gydâ rhoddion.

TUDUR ALED (*Ceinion*, I, p. 339).

Llawen yw cedeirn llawn hoccediaeth;
O'i rym y dygent rwymedigaeth;

(1) Barbarisme évident; à corriger en *anlloeddawg*, opulent?

A llawer eraill o herwriaeth,
A gyrchai o'r coed i garchar caeth ;
Yn nghred ni weled | unoliaeth — Gwalchmai
Wr well a fedrai roi llyfodraeth.

SION TUDYR (*Ceinion*, II, p. 211).

Poen oer i filiwn pan ryfelodd,
Poen uffern agos pan ffyrnigodd ;
Poen aml iddynt oedd pan ymladdodd,
Poen o'i ddwrn wedi pan ddyrnodiodd ;
Daear yn gynar | pan gwnnodd — ddyrnod
Ag e'n ei arfod pan gynhyrfodd.

LEWIS GLYN COTHI (p. 49).

Y gwr gwinau sy gar i Gynog
A goreu ydyw o Garadog,
Aed ar uchelwaed a'i dri cheiliog
A'i dair neidr rhiv drwy weundir havog,
A'i darian lydan | ddyledog — drevtad,
A'i dai o'r winwlad hyd ar Wenlog (1).

XV

BYRR A THODDAID.

LEWIS GLYN COTHI (p. 324).

Nodded sant Bened beunydd — o'i dymhor
Wyr Domas ab Davydd,

(1) Souvent, chez ce poète, il n'y a pas de *cynghanedd* vocalique au vers à *toddaid*.

E wna ovn i un anuvydd,
Ni wna e ovn i un uvydd ;
Nid ovna ev bedwar devnydd
Nes yw in ddwyn y nos yn ddydd ;
Ni ddarvu ei aur, ni ddervydd — ei air
Wyr Elystan glodrydd.

Dans les autres strophes, *allitération* ou *rime* avec le dernier *toddaid :*

Vo
Ev
Agos
Llan Egwad
Ev
Ivor.

XVI

HIR A THODDAID.

DAFYDD AB EDMWNT (*Gorch.*, p. 121-123).

Gwenn a wyr gwybod gain eiry gobant,
Gallu o'r nefoedd golli aur nwyfiant
Gwiw dyry giried, gêd aur ag ariant,
Glauar hardd eneth glir ei hardduniant.
Gwnn dew ddatganu | gann dant — goleuber
Gwas wyf a maeler, gwiw saif ei moliant.

Gwawdwyr i geinwen gwawd wir a ganant
Gair oedd o degwch gwir iddi dygant

Gwnn fod teuluwyr gwynfyd diliwiant (1)
Gwynedd i'w moli gwnn iddi maelant
Gorau i minnau | gwîr o mynnant — gwnâf (2)
Ganu i'r deccaf gwenna o'r deucant.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 268).

Pob llid arferoedd, pob lleidr a fwriwch,
Pob cywir gariad, pob car a gerwch,
Pob bardd diogan, pob rhodd o degwch (3),
Pob moliant, pob can a phob diddanwch,
Pob mawredd, rhinwedd, | lle rhennwch — win per
Pob hoyw a freuder mewn pob hyfrydwch (4).

(Cf. TUDUR ALED, *Ceinion*, I, p. 347).

XVII

ENGLYN UNODL GYRCH.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 259).

Gywired byth mae'n gryd bâr,
Gair o'th fynwes gwyrth feinwar ;

(1) Prononcez *foteuluwyr* : *-fytiliwiant*.

(2) Plus bas, au cinquième vers, le *gair toddaid* (expression exométrique) allitère avec le deuxième membre du vers où il se trouve :

Gwiri*au* cas dyddiau | cy*st*udd — calon.

(3) Prononcez *popardd* ; *pop rhodd* ; cf. vers 2, *Pop cywirr* : *pop car*.

(4) Prononcez *pop hoyw* : *pop hyfrydwch*.

Gwrando deg air unduw doeth,
Gwenn iaith goeth, y gwann a'th gar.

XVIII

AWDLGYWYDD OU CYWYDD ODLIAIDD.

WILLIAM LLYN (*Gorch.*, p. 260).

A'th liw calch ar dy falch fodd
A brifiodd fal berw afon;
Bun olau ba na welid?
Brad oeddid i brydyddion.

RHYS NANMOR (Prys, *Hanes*, p. 198).

Yn arglwydd Rhismwnt lor bwnt y rhedd
Yn arglwydd Swmrsed a gred i'r grog
Yn farchog urddol y detholwn
Yn eurlliw i wn yn iarll enwog.
Yn ddug i weled, newydd goler,
Inni dewiser (1) yn dywysog
Ag yn frenin gorllewin llywi'awdr
Ag yn ymerawdr y gwna mwrog.

(1) *Ddewisir.*

CHAPITRE IV.

LES DIVERS SYSTÈMES DANS LE MÊME POÈME.

§ 1er. — *La variété des strophes dans le poème chez les auteurs.*

Les Gallois donnent généralement le nom d'*awdl* au poème à strophes variées. Cette variété est plus ou moins grande chez les auteurs. Je donne, pour plus de clarté, la succession des strophes dans le même poème chez les auteurs les mieux connus des quinzième-seizième siècles (Iolo Goch, p. 354-356).

Iolo Goch (p. 354-356).

Gwawdodyn byrr (sept strophes).
Gwawdodyn hir.

Dafydd ab Gwilym (p. 320-321).

Englyn unodl unsain.
Gwawdodyn byrr (huit strophes).

Du même (p. 326-330).

Englyn unodl unsain (dix strophes).
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain (quatre strophes).
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain (six strophes).
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain (onze strophes).

DAFYDD AB EDMWND (*Gorch.*, p. 107).

Englyn unodl unsain.
Englyn prost cadwynog.
Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain.
Gwawdodyn hir.

GUTTYN OWAIN (*Gorch*, p. 200).

Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain.
Englyn prost cadwynog.

Englyn unodl unsain.
Clogyrnach (huit strophes).

(Page 188, même disposition ; mais *six* strophes de *tawddgyrch cadwynog*).

TUDUR ALED (*Ceinion*, I, p. 338-340).

Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidog.
Englyn unodl unsain (trois strophes).
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain (deux strophes).
Un *pennill* de *cywydd deuair hirion.*
Un *englyn unodl unsain.*
Gwawdodyn hir.
Gwawdodyn byrr.
Gwawdodyn hir.
Cyhydedd nawbann.
Strophe type *toddaid.*

SION TUDUR (*Ceinion*, II, p. 210-211).

Englyn unodl unsain (neuf strophes).
Hir a thoddaid (six strophes).
Gwawdodyn hir.
Hir a thoddaid (quatre strophes).
Gwawdodyn hir.

LEWIS GLYN COTHI (p. 24-26).

Englyn unodl unsain (cinq strophes).
Toddaid avec *cyhydedd hir.*
Hir a thoddaid.
Toddaid.
Hir a thoddaid..
Cyhydedd hir.
Gwawdodyn byrr.
Englyn unodl unsain.

Du même (p. 29-30).

Englyn unodl unsain (deux strophes).
Englyn prost cyfnewidiog.
Cyhydedd nawbann (huit strophes de même rime).
Englyn unodl unsain.
Cyhydedd hir (huit strophes).
Englyn unodl unsain.

Du même (p. 44-46).

Englyn unodl unsain (huit strophes).
Toddaid (trois strophes de quatre vers).
Gwawdodyn byrr.
Hir a thoddaid.
Englyn unodl unsain.

Du même (p. 58-64).

Englyn unodl unsain (trois strophes).
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain (quatre strophes).
Gwawdodyn byrr (neuf strophes : rime en *-ar*).
Cyhydedd nawbann (quinze strophes en *prost cyfnewidiog*).

Du même (p. 97-99).

Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidiog.
Englyn unodl unsain.
Englyn prost cyfnewidiog.
Cyhydedd nawbann.
Gwawdodyn byrr.
Cyhydedd nawbann.
Gwawdodyn byrr.
Cyhydedd nawbann.
Gwawdodyn byrr.
Cyhydedd nawbann.
Gwawdodyn byrr (trois strophes).
Toutes les rimes sont en *-aidd.*

William Llyn (*Gorch.*, p. 25).

Englyn unodl unsain (huit strophes).
Englyn prost cyfnewidiog.

Englyn unodl unsain.
Cyhydedd hir (trois strophes).
Toddaid.
Hir a thoddaid (deux strophes).
Gwawdodyn hir.
Gwawdodyn byrr (quatre strophes).

DAFYDD NANMOR (*Ceinion*, I, p. 161).

Englyn unodl unsain (six strophes).
Gwawdodyn byrr.
Série de *gwawdodyn hir.*

§ 2. — *Exemples.*

Je prends comme exemple un poème de Tudur Aled et un autre de Lewis Glyn Cothi, les deux poètes de cette époque qui montrent le plus de variété dans l'usage ou la combinaison des types de strophes.

TUDUR ALED (*Ceinion*, I, p. 338).

Awdl farwnad Thomas Salsbury, Marchog urddol.

Englyn unodl unsain (1).
Gwae holl Gred, trymed | tromwedd — am erchwyn
Y marchog o'r Gogledd,
Cloi'r bwrdd a'r clai ar y bedd,
Cau Lleweni, cell Wynedd !

(1) Les indications de strophes sont de moi.

Prost cyfnewidiog.

Gwynedd am ein gwledd mae'n gloff;
Marw llew'r prince mae'r lloer heb priff;
Marw'n pen a'n cadben a'n cyff;
Marw Salbri ym a'r sel braff.

Englyn unodl unsain.

Marw syr Thomas | mae oerion — fronau
Am frenin marchogion;
Marw iachoedd mawr Marchudd Môn,
Marw edryd ymerodron.

Prost cyfnewidiog.

Os marw ef, Iesu! mae'r wyd,
Yn llwyn o ynnill ei waed;
Mae o'r un cyff mawr o'n coed,
Yn wydd iefainc ymddifaid.

Englyn unodl unsain.

Ymddifad o'r tad | yw'r tir — a'r cestyll
Rhag gostwng (1) y teir sir;
O flodau afalau dir
Impier o'r rhyw emprwr hir,

Englyn unodl unsain.

Emprwr o eryr | Aram — sy egin
Siacop, Isaac, Abram;
Oes merch, arglwyddes hi mam;
Oes meibion, dynion dinam.

Englyn unodl unsain.

Tad, brodyr, neiaint, | plant aeth mewn hiraeth — a [cheraint (2),
Chwiorydd i'm penaeth;
Cwyn am ei ddwyn i'm oedd waeth,
Cwyno adladd cenedlaeth.

(1) Prononcez *rhacostwng*.
(2) Ce vers a trois syllabes de trop.

Prost cyfnewidiog.

Bu adladd 'n awr radd o'i nerth
Bu ddwr Noe yn boddi'r north :
Ba ryw swn? a'i wybr a syrth?
Bu ddiaspad heb ddosparth.

Englyn unodl unsain.

Diaspad gwaeddiad dygwyddaw — tyrau
A'r carteri yn syrthiaw;
Daiar oedd yn diwreiddiaw
Dan ebwch drom Dinbech draw.

Englyn unodl cyrch.

Draw yr aeth dirwy ar wyth win,
Darfu oeri'r dorf werin;
Darfu pen y dref a'i post,
Darfu'r gost ar fara gwin.

Cywydd d. hirion.

Darfu'n diarfu, Deo, ir-fyw!
Darfu am barch dra fo'm byw;

Englyn unodl unsain.

Dra fo'm byw, deryw | dwyrain — a gogledd
Diryfedd hyd Rhufain,
Doe'n dirwywyd yn druain :
Dinbech drist dan y baîch draîn.

Englyn unodl unsain.

Ar ddrain ac ar fain | er f'anwyl — yr wyf :
I ba le yr af uchelwyl?
Dydd oer ydoedd ei arwyl,
Dydd Ystwyll gwin distill gwyl.

Gwawdodyn hir.

Llyma oer wyliau lle mae'r alaeth,
Llwyr yw briw adfyd llawer brawd-faeth;
Lle odidogach, lle daw dugiaeth
Ni chae iarll i'w roi na chôr lle'r aeth,
Na brenin yn syn | wasanaeth — harddach
Na gwledd degach na'i gladdedigaeth.

Gwawdodyn byrr.

Mae aro yn taro, mae anturiaeth,
Maneg ar aliwns mewn gwroliaeth?
Methodd, maluriodd | milwriaeth — y byd;
Mae'n erchwyn i gyd mewn arch yn gaeth.

Gwawdodyn hir.

Llawen yw cedeirn, llawn hoccediaeth,
O'i rym y dygent rwymediqaeth,
A llawer ereill o herwriaeth
A gyrchai o'r coed i garchar caeth:
Yn nghred ni weled, | unoliaeth — Gwalchmai,
Wr well a fedrai roi llyfodraeth.

Cylydedd nawbann.

Am ei fawr golled mae f'arglwyddiaeth,
Am rydid im oes, am ryw dadmaeth,
A'm hen a'm perchen a'm nenbren aeth,
A'm hoedyl wedi a'm hadeiladaeth.

Toddaid.

Y'mherigl yr wyf | o'm hiraeth — bob awr,
Yr af ar f'elawr o'i farwolaeth;

Gwawdodyn hir.

Mae'r fynwes im ar fon y saeth
Heb fy stor Wylian, heb feistrolaeth,
Heb allu dros hyn, heb well dros waeth,
Heb windai mawrdrai | mordraeth — longlwythau
Heb aml ffrwythau, heb fwythau, heb faeth.

Gwawdodyn hir.

Yn iach na helwyr na chynaliaeth,
Na meirch o arial na marchwriaeth,
Na gweilch i'w harwain na gwalchwriaeth,
Na chwn awyddus na chynyddiaeth,
Na cheision mwy son | am wasanaeth — gwledd,
Na chog i Wynedd na cheginiaeth.

Englyn unodl unsain.

Gwynedd anrhydedd, | rhedwn — etto, wyr,
At ei aer y cyrchwn;
Os ber fu oes y barwn,
Oes hir i arglwyddes hwn!

Cyhydedd nawbann.

Am hwn y gwaeddwn, am ei gweddwed,
Ni bu lawenydd yn y blaned;
Ni roed o'm synwyr y Dâme Sioned,
Gwyn i dri marchog gan dair merched.

Toddaid.

Cywir Essyllt gynt, | crused — Siwsan
Er cwyn i Drystan, wraig can dristed.

Cyhydedd nawbann.

Rhoi elusenau yw rheol Sioned,
Rhoi gynau gwynion rhag ein gwaned,
Rhoi cyn y ddwyawr rhai can ddued,
Rhoi cwyr a menig; | rhoi cri o'i myned.

Cyhydedd hir.

Rhoi cwyn rhai a'i cant,
Araith oer a thant
A wnant; methasant o'i mwythused.

Cyhydedd nawbann.

Gwae eigion y'mron i merwined!
Gandryll o waeddi gan dra lludded;
O'm dwyais heddyw y'm diswydded;
Anodd ymaros yn ddiymwared.

Cyhydedd hir.

Yn ddiddawn ddiddym
Heb rodd [a] heb rym,
Heb addwyn feistr ym, heb dda'n fystred.

2 vers de 9 syll.

Mawr ydd wy'n wylo, Merddin Aled!
Mawr ydyw'r achos, Mair edrych (1),

(1) Les vers de neuf syllabes sont souvent unis au genre dit

Cyhydedd hir (pennill).

Myn Crist, manau croes;
Man trist ym troes,
Mae oriau f'einioes im fyned.

Diryfedd trostaw (1)
Trwy fodd tristed,
Oedd im gwynaw
Dydd ym ganed.

Cyhydedd hir (pennill).

Duc hwn, Deo! cwynwn,
Deo! oll, dyallwn,
Deo! ni a'i gallwn dan y golled.

Cyhydedd nawbann.

Ni bu rym aruthr heb roi ymwared,
Gandryll o weiddi gan dra lludded,
Can awyr wyth-ryll cyn aruthred,
Can eirth o'u rhwymau cyn orthrymed,
Can Droia unwaith cyn druaned.

Cyhydedd hir (pennill).

Nid cwyn, cwyn canwr,
Nid byd, byd heb wr,
Wrth gwyn goncwerwr wythgan caered.

Cyhydedd nawbann.

O bwy cawn lunio neb cyn laned?
O bwy cawn ddethol neb cyn ddoethed,
Nag un o'r sessiwn cyn rasused (2),
Nag un ar elyn cyn wroled?

cyhydedd hir (v. t. II). Ceux-ci unissent la strophe précédente à la suivante.

(1) Ces quatre vers de quatre syllabes, ou plutôt ces deux vers de huit syllabes doivent être joints à la demi-strophe suivante.

(2) Le *g* de *nag* allitère avec *c* de *cyn*, qui devait se prononcer *gyn*. Cf. dernier vers :

O gwyn ei briddo cyn ebrwydded.

Le *g* de *gwyn* pour *cwyn* est certain.

Cyhydedd hir (pennill).

Ni bydd hydd (1) na hawc,
Na llew galluawc,
Na blaidd cynddeiriawc, blwydd cyn ddewred.

Cyhydedd nawbann.

Yn ei arwyddion un a rodded,
O fewn y darian faen a dorred,
Lleuad newyddian, llew dinodded,
5° Strophe de six vers de onze syllabes : la sixième syllabe rime généralement avec la neuvième, ou parfois avec la septième ; la partie portant la rime finale est reliée à la partie de la deuxième rime par la *cynghanedd* qui est, en somme, réduite à sa plus simple expression (Eben Fardd, p. 388 ; cf. p. 344).

Hir oes i Glwb Llifon, | un ffyddlon, hoff yw,
Pa le mae gwell dyfais | am fantais i fyw ;
Rhaid gadael yn ufudd | i gystudd ei gwrs,
Ond rhag bod mewn tlodi, | doed pawb i wneud pwrs ;
Gall salwch ddod heibio | ryw dro ar awr drist,
Ond byddwn galonog, | cawn geiniog o'r gist.

II. — *Genre toddaid.*

1° Deux distiques *toddaid* avec trois vers de neuf syllabes entre les deux (Dewi Wyn, p. 48).

Banerawg benau oerion — llawn geiriau,
Ond eu tafodau ydynt fudion ;
Etwa nhwy waeddant y newyddion
Mor uchel nes êl | yn son — goffrydiawl
Am eu hydreiddiawl ymadroddion.

Chez Eben Fardd, p. 24, strophe de douze vers avec deux toddaid.

2° Genre *byrr a thoddaid*, mais le dernier vers de dix syllabes est suivi d'un vers de neuf syllabes au lieu de six (Dewi Wyn, p. 71; cf. Eben Fardd, p. 171).

Mae bwytawyr, meib tewion — yn trwytho
Eu trythyll goluddion;
Golwythaw eu boliau glythion,
Byw o'r brasaf, heibio'r briwsion,
Gormodedd gwrw a mwydion,
Gosiglant megys Eglon; — eu hangau,
Ddaw o'u moethau, eiddo Amaethon.

3° *Paladr* d'*englyn unodl unsain* avec un distique *toddaid* (Dewi Wyn, p. 83).

Iawn y dysg in; Dos a gwerth — a feddych:
Dod wirfoddol aberth,
I'r tylawd un gnawd gwan nerth — newynog,
Anwydog, ofnog, hen, digyfnerth.

Du même poète, page 91, une strophe du même genre, avec, en plus, un distique *hir a thoddaid*.

4° Strophe *hir a thoddaid* de sept vers (cf. p. 204).

5° *Englyn unodl union*, avec quatre vers au lieu

de deux de sept syllabes suivant le *paladr englyn* (Dewi Wyn, p. 84).

6° Strophe de vingt-cinq vers à rime en *-a*, formée d'une série de *hir a thoddaid* (Dewi Wyn, p. 91).

7° Strophe de huit vers (Dewi Wyn, Attodiad, p. 130) : quatre riment deux à deux (neuf, huit et dix syllabes), puis quatre vers du genre *toddaid;* le premier et le troisième vers ont quatorze syllabes, le deuxième et le quatrième en ont huit (le sixième en a aussi neuf).

1 Arfon gaerog 'r wyf fi'n gyru,
At fwyn wladoliaeth fy hen deulu,
Fy llinellau mewn llon'wyllys
Iddeu cyfarch mewn modd cofus,
Er nad wy'n nabod eu wynebau, | yr wy'n garennydd,
O goeth ddeunydd | eu gwythenau ;
Er mewn dwy dalaeth ein didoli, mae doeth gymdeithas
Y berthynas | heb wrthuni.

Les quatre derniers vers pourraient se couper ainsi :

Er nad wy'n nabod eu wynebau
Yr wy'n garennydd
O goeth ddeunydd
eu gwythenau ;

Er mewn dwy dalaeth ein didoli
Mae doeth gymdeithas
Y berthynas
heb wrthuni.

C'est une variété du genre *hupunt byrr*.

III. — *Genre cyrch.*

1° Strophe de vers de neuf syllabes rimant deux à deux ; l'un des vers couplés rimant a huit syllabes et est suivi d'un vers à rime différente de huit syllabes, suivie d'un *llosgwrn* (queue) de six syllabes du type *cywydd llosgyrniog*, avec une syllabe en moins ; ce *llosgwrn* est suivi de deux vers de neuf syllabes qui riment avec lui (Dewi Wyn, p. 176-181 ; tout le poème est de ce type).

Aeth Robert Roberts o fro'r trwbl
Medd ein gobaith heddyw'n gwbl,
I wlad y wledd sy le diludded,
Yn gu a thawel heb gaethiwed.
Y doniol athraw da ni lithiodd,
Enwog diwyd a'n gadawodd,
Fe gynt a gaid, | rhag bleiddiau'n blaid
I'r defaid, wr dyfal,
Y da weinidog dianwadal ;
Wyn Duw arweiniodd drwy dir anial.

2° Série de vers de six syllabes à rimes alternantes, du type *awdl gywydd :* c'est à peu près

le *trybedd y meneich* (cf. plus haut, p. 87; Eben, p. 180).

Oen Pasg nid oes eisiau
Yn nyddiau ein hoes;
Caed Iawn dros rai athrist,
Trwy grist ar y groes;
Sicrwydd sydd, | daw y dydd,
Pan na fydd | poen neu fai;
Moli'n rhwydd | fydd ein swydd,
Yna'n llwydd | nid â'n llai.

3° Strophe composée de quatre vers : le premier et le troisième de neuf syllabes; le deuxième et le quatrième de six syllabes rimant entre eux; le premier et le troisième riment avec la cinquième syllabe du vers qui les suit (Eben, p. 197).

Boed ieuengtid | yn troi'n astud,
Y cyfnod hyfryd | hwn,
Gan wneyd edrychiad | craff yn llygad
Prif ffeithiau'r cread | crwn.

Généralement, le vers de neuf syllabes est coupé à la cinquième syllabe, qui rime avec la dernière du vers.

§ 3. — *Systèmes combinés et strophes.*

1° Strophe de huit vers de sept syllabes suivis d'un distique de *hir a thoddaid* uni par la rime principale aux deux derniers vers de sept syllabes

(Dewi Wyn, p. 84; page 87, quatre vers de sept syllabes avec un distique de *toddaid*).

2° Strophe de six vers : un distique de *cywydd deuair hirion*, un distique de *hir a thoddaid*, puis un distique de *cywydd deuair hirion :* même rime, en dehors du *gair toddaid* (Dewi Wyn, p. 85).

3° Strophe de six vers : *paladr* d'*englyn unodl unsain;* distique de *toddaid*, puis distique de *hir a thoddaid :* même rime (Dewi Wyn, p. 91).

4° Strophe de quatre vers : un distique de *hir a thoddaid* avec un distique d'*awdl gywydd :* même rime (Dewi Wyn, p. 119).

5° Strophe de trente vers : cinq distiques de *cywydd deuair hirion*, puis un distique *toddaid* se reliant au dernier distique par la rime; puis deux vers de sept syllabes rimant également avec le second vers du *toddaid*, suivis de quatre vers, rimant entre eux, de sept syllabes; le reste des vers est composé de distiques de *cywydd deuair hirion.*

6° Strophe de huit vers de même rime de dix syllabes : les quatre derniers sont un *hir a thoddaid* (Eben, p. 89).

7° *Paladr* d'*englyn unodl union* suivi d'une

strophe d'un distique de *hir a thoddaid :* même rime (Eben, p. 151).

§ 4. — *Les systèmes dans le même poème.*

Les poèmes de Dewi Wyn sont, en général, assez longs. L'analyse d'un d'eux donnera une idée de tous (p. 29-53).

Trois distiques de *cywydd deuair fyrrion.*
Englyn unodl unsain.
Englyn crwcca.
Englyn unodl unsain.
Cinq distiques de *cywydd deuair hirion.*
Cyhydedd nawbann.
Cinq *englyn unodl unsain.*
Deux *hir a thoddaid.*
Quatre *englyn unodl unsain.*
Série de *cywydd deuair hirion.*
Hir a thoddaid.
Englyn unodl unsain.
Englyn prost cadwynog.
Série de *cywydd deuair hirion.*
Hir a thoddaid.
Série de *cywydd deuair hirion.*
Trois *englyn unodl unsain.*
Série de *cywydd deuair hirion.*
Quatre *englyn unodl unsain.*
Trois *englyn unodl cyrch.*
Deux *cyhydedd nawbann.*

Englyn unodl unsain.
Englyn unodl cyrch.
Englyn unodl unsain.
Gwawdodyn hir.
Cyhydedd nawbann.
Trois *englyn unodl unsain.*
Hir a thoddaid.
Englyn prost cadwynog.
Série de *cywydd deuair hirion.*
Englyn unodl crwcca.
Hir a thoddaid.
Deux *englyn unodl unsain.*
Série de *cywydd deuair hirion.*
Englyn unodl unsain.
Série de *cywydd deuair hirion.*
Englyn unodl crwcca.
Strophes de vers de dix syllabes.
Cyhydedd nawbann.
Hupunt hir.
Un distique de *cywydd deuair hirion.*
Strophe en *toddaid.*
Quatre vers de dix syllabes de même rime.
Quatre vers de douze syllabes de même rime.
Cyhydedd nawbann.
Englyn prost cyfnewidiog.
Série de *cywydd deuair hirion.*

Il y a moins de variétés de systèmes chez Eben Fardd. Voici une analyse d'un de ses poèmes les plus étendus (Job, p. 83-106).

Distique de *cywydd deuair hirion.*

Huit *englyn unodl unsain.*

Hir a thoddaid (douze vers et quatre vers).

Distique de *cywydd deuair hirion* relié à *englyn unodl unsain.*

Strophe de quatre vers de dix syllabes de même rime reliée par la rime à une strophe de *hir a thoddaid.*

Neuf *englyn unodl unsain.*

Série de *cywydd deuair hirion.*

Englyn unodl unsain.

Toddaid.

Série de *cywydd deuair hirion.*

Les seuls systèmes qui leur paraissent véritablement familiers sont le *cywydd deuair hirion*, l'*englyn unodl unsain*, le *hir a thoddaid* et les strophes de vers de même rime de longueurs diverses.

§ 5. — *Exemples de poèmes avec cynghanedd indiquée.*

DEWI WYN.

Awdl yr adebau (p. 100-104) (1).

Aeth f'oes wan eisoes | yn isel — adyn
Yn edwi ar ymgel ;

(1) C'est une satire contre des juges d'un de ses poèmes, notamment contre Owen Pughe.

Ffroenochi, a'i ffriw'n uchel,
Arnaf mae'r byd gaufryd gwel.
Be digiai y byd ogylch,
A mi'n ymboeni i'm bylch,
Ni wnawn ar ddaear ddywerdd,
Gyfarfod âg oferfeirdd ;
Er hyn 'r wy'n gofyn ar gerdd,
Gwaetha'r byd ag eitha'r beirdd,
Heb lafur, â hoyw blyfyn,
Heb braidd (1) gamp ar ddu a gwyn,
Gyru dirmyg ar deirmil,
Trechwn o'u math trichan mil ;
Cyfeirio dyrnod â dur,
Taro'r dulafn trwy'r dolur ;
Anfon saeth na fai un swyn,
Gyru gwinegr a gwenwyn ;
Medru anelu iawn nôd,
Yn greulawn, mewn Grealod ;
Dal i'r genedl aur ganwyll
Ar benau tai'n erbyn twyll ;
Goleuo, gwae i lawer ;
Gwirio'r son drwy gaerau'r ser,
Nes bo yn arseinio'r son,
Ceryg adail Caergwdion ;
Nodi'n g'oedd ynadon gau
Nes crinais eu coronau ;
Dryg-noethwn dri gwenieithwr,
Ho ! pydrai gamp pedwar gwr ;
Ysmaldod drwy (2) glod tra glew,
Iro pedwar â'u pydew ;
Cymyredd y'w camwri
Wnai blaid fy meirniaid i mi.

(1) Prononcez *heppraidd* : gam | *p* ar *dd*u.
(2) Prononcez ysmaldottrwy : *glot tra*.

Rhwydd hynt fu'r helynt fawr hon,
Digrifawd, gware Eifion,
A mwy fwy i mi o fawl,
O'mrwydrau ymerodrawl,
Adgofio a dygyfarth
Pob darn o'u gŵyr-farn i'w gwarth.
A'u tenynod (1) hunanawl
Crogaf hwy uwch creig o fawl.
Gwingant, o meiddiant, am hyn,
Tynach tynach eu tenyn.
Beirdd beilch, dig weilch, beirniaid gau,
Ebychant wrth y bachau.
Ow! 'n gwyr da'n gwaeo o'r dydd,
Euro gem i rigymydd;
Byr a diddim brydyddawd,
Tenyn pabwyryn pen bawd :
Fath na roesai erfai wr
Fathodyn fyth i'w awdwr.
Ni fynynt hwy, er hwy rhîn
Roi y tlws i'r Taliesin.
Ni chaid gan fy meirniaid myg,
Da'u darmerth, ond y dirmyg;
Ond Eifion, a da wiwfoes,
Goreu ar awdl gwyr yr oes.
Ac o! 'r cof hyd y brofydd,
O'r awdl fawr, o! r edliw fydd.
Rhagor im oedd rhoi gair mawr,
Na glain ac na main mynawr,
A thriwriaeth Eryri,
Yw'r gair mawr a geir i mi.
Naturiolaeth nwyd drylen (2),
Triwri, campwri pen

(1) *Tenyno | tunanawl.*
(2) Prononcez *nwyl trylen* : naturiolaeth.

Urddas gwiw, arddysgywen — gofnodau,
Gemau, pwysïau y gampus awen.

Sôn dan fawl ysnoden fydd,
Eirionen i'r awenydd ;
Dawn llên nas diwyna llaid,
Eirionen wiw yr enaid ;
I dras Hu wedi'r oes hon
A'u llawrwydd yn llaw wyrion ;
Plu du goron pleidgarwch,
Hesg, doniau llesg dan y llwch :
Ceingciau'r dryw, cangcr a drewiant,
Dom yr oes, i'r dim yr ânt.
Pe bai'n swmp neu un twmpath,
Eirion byd, a'i arian bath ;
Hardd-deg urddid âg eurddellt,
Gwyr a wnaid o gŵyr neu wellt,
Ac aur yn dorch, cywrain did,
Am golwyn yma gwelid ;
A chymhwysach am asyn,
Na rhyw dwrch o haner dyn.
Er tlws, mwnws a manaur,
Twrch yw ef mewn torch o aur.
Dyn awdl dlawd nad ail i dlws ;
Dyn didlawd yw'n dwyn deu-dlws,
Pe tri-thlws yn gwylws gaid,
Naw eirionen arianaid,
Ai'n ofer hyn i fawrhau
Enw bardd yn wyneb urddau.
Pond y gamp, awen dêg wedd,
A theganau iaith Gwynedd.
Ys Powys i'w hepaod
A roi yr aur eiry'r ôd ;
Ni wnai'r aur yn Eryri
Dim mwy mawl na'r dom i mi.

Nid manaur ond ymenydd
I'n gwlad falch yn glod a fydd;
Maen llwyd yw aur man lle dêl
Dawn Nâf yn dywyn ufel.
Myrierid trum Eryri
Gribwen yw ei hawen hi.
Os tlawd, nid tlawd am ddwyn tlws,
Bryn nesaf i Barnassws,
Bid aneirif ei phrif-feirdd;
Bo yno byth Ben y Beirdd,
Henadur i'w hynodi
Yn oes haul a'i hanes hi.

Galwaf yn awr bob gelyn,
A ddêl, doed, o ddiawl a dyn.
Byddwch, o! deuwch, 'r wy'n dod
Ben boreu bawb yn barod;
Troed rhingyll drwy'r gwersyll gau,
Tabwrdd anorfod dybiau (1),
Rhybudd i Gaer Ludd a'r wlad
Roi mawr gyrch i'r ymwrgad,
Heriaw ar g'oedd wyr i'r gamp,
Dyn Southcott (2) dom ei seith-gamp (3);
Er iddo anturio twyll,
Gwrthodi gwir iaith ddidwyll;

(1) Prononcez anorfottybiau : tabwrdd.

(2) Siwan Southcott, espèce d'illuminée illettrée qui commença à prophétiser à l'âge de vingt ans. A l'âge de soixante, elle passa pour être la femme prédite par l'Apocalypse, XII, et enceinte de Siloh. Grande fut l'attente des disciples; mais au lieu d'accoucher, elle mourut en 1814. O. Pughe était un des principaux dignitaires de son église et passait pour arranger ses prophéties (*Blodau Arfon*, II, p. 37).

(3) Prononcez *seith-camp : southcott.*

Datod a cham osod main
Ieithadur Hu a Thydain ;
Llusgo'r aeg yn llesg o'i rhod,
Och, och ! mynd â'i chymhendod.
Prawfiedydd, diwygydd da,
Llaw fawr iawn, llyfr Ioanna ;
Er dwned ei syfrdanedd
B'ai bla'n iaith a'n Beibl un wedd ;
A thori prif lythyreg
Llyfr Duw oll o Efrai deg.
Gwell y medr drin gwallau mân
Twyll Southcott wallus, wyth-gant (1),
Na thrin gwaith yr enwog wyr,
Ein doethion a'n da ieithwyr ;
Ac nid efe, gwnaed a fyn,
Na'i wrach oedd oruwch iddyn'.
Byd gwell be diwygiai o
Y Geiriadur a'i Gredo.
Pond gwell i'r awdur bellach
Dynu ei Gred o din gwrach ?
Poed in' oll, rhag pyd un wedd,
Weld ei frad a'i led-frydedd,
A'i ffiaidd wrachïaidd chwedl,
Gwnai byg wyneb i'w genedl ;
Ys awdur Geiriadur a
Gwallgo' ynfyd Goll Gwynfa (2)
Llef hogi llif ei Goll o,
Caingc a nâd ci'n cynudo.
Gan ddychryn ar hyn y rhed
Doniau byrion dan bared.

(1) De même *wyth-cant : southcott.*

(2) La traduction galloise du *Paradis perdu* de Milton a été très vivement critiquée : Iolo Morganwg l'appelait plaisamment *Coll Milton* (la perte de Milton).

EBEN FARDD (p. 187-199).

Awdl barddas.

Discussion sur les *systèmes enchaînés* et *libres*. Les personnages sont : *Plenydd* (Lumière), *Alawn* (Harmonie) et *Gwron* (Energie), au dix-neuvième siècle. Les bardes gallois sont au milieu du cercle, assistent à l'entretien et le commencent (1).

Crebwyll yw prif bwyll y bardd,
Y cryfaf yw y creu-fardd ;
Dawn euraidd yw dynwared,
Ond llai yw mewn hyd a lled.
Eilfydda rhyw wyl feddwl,
Yn lled deg, â'i ddawn llwyd, dwl,
Gan ddilyn sawdl hen awdlau — neu gerddi,
Gwrddodd â hwynt droiau ;
Ystrydebir gwir neu gau
I feddalion feddyliau,
Hwt ! dynwared hen wireb,
Sy'n wan iawn, ni synna neb ;
Creu mawr, nwyddfawr, newyddfyd
Sy'n rhyw bwngc a synna'r byd.
Onid creu wna enaid cryf
O hono'i hunan'n heinyf (2) ?
Goreu yw creu, feirdd gwir cred,
Yn wrol, na dynwared.

(1) C'est une discussion sur l'essence de la poésie. Un des interlocuteurs passe en revue les vingt-quatre mesures : deux ou trois trouvent grâce devant lui.

(2) Texte : hunan *yn* heinyf, ce qui donne un vers faux.

Alawn.

Son am greu? Swniai mwy gras — d'weid llunio,
Dodi llanwad addas
Gordaflu y gair diflas,
A chyfleu un gwych ei flas.
Creu? creu yw dechreu o'r dim,
Cyn-ddyddio cân o ddiddim!
Pwy a droes, yn ein hoes ni,
Niwl anian yn oleuni?

Neu a alwodd yr anelwig — dryblith,
Drwy abledd cyntefig,
Ar ddull traith, neu gerdd, lle trig
Adlun at bob ôl-odlig?

Lliw dwl hen feddwl a fydd — gennym ni
Yn gân mewn awdl beunydd;
Gan bwy mae swyn er dwyn dydd
Mewn awen ar ddim newydd?

Cyfrolau'n cyfri' eilwaith — eu hoesoedd
Trwy asiad celfyddwaith;
Gwynnu'r hen feddwl ganwaith,
Yn nwydd o wedd newydd waith.

I swyddo un ymosodydd — neu feirniad,
A furnio waith prydydd,
Ni cheir un cawr, yn fawr fydd,
Nag (1) eiliwr uwch na' i gilydd.

(1) Texte : *nac.*

Bu blaenafiaid o hen bobl nefol,
Do, cawri hedegog, creadigol,
A'u heinyf awenau'n nofiannol (1),
Ger iach nennau goruwch anianol,
Eryraïdd feirdd arwrol — anorfod;
Ninnau, cywennod wnawn 'n eu canol (2).

Bu ryw deilwng ysprydoliaeth-o'r Crewr
Er creu'r hen farddoniaeth,
Tra bu'r hyd yn mebyd maeth,
I'w swyno i uwch-syniaeth.

Grymmuswyd y gwr Moesen, — a'i chwaer,
Uwch eraill mewn awen,
I greu iaith ag aur wythen
Prif odlau, cynlluniau llên.

Gwnai Dafydd gywydd yn gu — hwn wyddai
Awenyddiaeth canu;
Hwn greodd salm y salmu;
Pob ol wr, eilfyddwr fu.

Eilfyddu yw'r hawl fuddiol — sy gennym,
Os gwn y gamp farddol;
Na wridwn, dynwaredol
Ydym ni, a dim yn ol.

Aeth awen accw at yr ethnicwyr;
Awduron Grywaidd a droai'n grewyr;
Eryrog urddas yr arwr-gerddwyr
Nodai linell i ni eu dilynwyr;
A wnelo gân ail i'w gwyr — wna fawredd,
A daw anrhydedd i'w dynwaredwyr.

(1) Texte : *yn* nofiannol.
(2) Texte : *yn* eu canol.

Ar ol Duw i ni'r ail dad
Oedd Homer, yn ddiymwad ;
Homer ydyw'r mawr awdwr,
A phob bardd byw'n gyw y gwr ;
Ei Iliad ef eiliwyd oll,
A'i brawddegau'n ber ddigoll ;
Ag (1) ynddynt y caed ganddo
Reol i'r byd, ar lawr bo ;
Drwy gred, ïe, dacar gron,
Sefyll y mae yn safon.
Wedi Homer, diamhau,
Gwyr o feirdd fu'n ymgryfhâu ;
Efe oedd boncyff cyff cân,
Tew fon i attwl anian ;
A Hwn a Hwn honna hawl,
Trwy ddidor rin tarddiadawl,
I nodd îr yr hen dderwen
Ag aeron brig yr hen bren.

Fyrsil, wedy'n, fu wr o sylwadau,
A fawr ryfeddir am hyf arfeiddiau ;
Ei fawredd resir gan feirdd yr oesau
Yn raddiad awen o urdd y duwiau ;
Daliodd i'w antur ; ond ail oedd yntau ;
Yn ei Æneid efe, fel ninnau, — eilfyddodd,
Hwn ddynwaredodd hen ddawn a'i radau.

Tasso ganmolir, twysog cîn miloedd,
Sefir i ddwedyd, o'n his-feirdd ydoedd ;
Arddelai i'w arwain feirdd laweroedd
A'i rhagflaenasent ar goflen oesoedd.
Mwya o'r rhai'n Homer oedd ; — ond etwa,
Onid dull Troia feddynt ill trioedd ?

(1) Texte : *ac*.

Ein Miltwn, bengrwn, bongryf — ei dalent
Dylem oll ei deisyf;
O! na bai tân ei gân gennyf!
Medrwn greu a mydru'n gryf.

Etto Miltwn, gwn, ganodd — lawer rhes
Ar liw yr hyn welodd
Yn ereill a'i blaenorodd;
Gwyddai hawl eilfyddawl fodd.

Daccw Wiliams Pantycelyn — yn grewr
Unig rywiaeth emyn;
A daw o gerdd Du a Gwyn
Adail congl awdl ac englyn.

Ond er hyn, onid yw'r hawl
A feddant, yn eilfyddawl?
Saif bardd syber ger ein gwydd,
Er hyf erchi rhyw forchwydd,
A chreu 'storom drom ei drych
Drwy wyntrwyll du yr entrych;
Pob elfen o'r nen a naid
Yn dwymnol gyd â'i amnaid;
Gweryrant ar hagr oror
Agen y mellt, eigion mor;
Rhigolant drwy eu gilydd,
A'u twrw'n fawr fal taran fydd,
Blith draphlith yn ymrithiaw
O bebyll llid ar bob llaw;
Dyrch ewyn mor drochion mawrion,
I nef e deifl nawf ei dôn,
Gan boeri'r heli i'r haul,
A fferru ei gorph araul,
Nes y dua'n nos dywyll,

A'r lleuad dawdd, trwy'r llid hyll (1);
Yn y drycb hwn o dwrw a châd,
Arwyddir allan ryw ddrylliad,
Yn gwywo hen ag ieuangc,
Gan droi ugeiniau i drangc!
Tybiwn i hyn fynd heibiaw (2),
Daw'r ail wr i dreio'i law,
A chryn fyd o ddychrynfaau
Baentir gan ei dyb yntau;
Ei newydd awen a ddeall
Mai da fai darllen llên y llall (3);
Ond, gosteg! onid yw gwestiwn
I ni o hyd ai hwnnw ai hwn,
Sydd o'r creol, wreiddiol, radd?
Dechreu a noda uwchradd,
Onite? gan hynny twng — y blaenaf
Hwnnw fo'n olaf yn fwy annheilwng.

O ran hynny'r un ohonom — nid ym
Na da na drwg rhyngom;
Canolig yw a wnelom,
Gwyneb teg oni bai tom.
Anenwog yn nawn anian
Ydym i gyd am y gân;
Gwawdyddion diddrwg didda.
Syml a dof a symol da;
A dinod y'n hadwaenir
Am oesau rai, amser hir;
Oni ddeuwn yn ddioed,
Yn neddlf deg ein haddfed oed,

(1) *lleuat lawdd : llit hyll.*
(2) *Tybiwn : fynt eibiaw.*
(3) Vers faux et altéré : supprimez *llen.*

I brysur weithio'n barhâus ar wythen
Dra amrywiog holl drummau'r awen,
Dirwyn heibio i fydrau anniben,
Nôd ein hymgais am enaid, yn amgen ;
Taro bai, torri ei ben, codi'r nôd,
Sarnu sorod o seren i seren.

Myn rhai nad oes yn ein hoes ni
Fawr o ddawn at farddoni ;
Dim ond yr hyn erioed oedd,
Cynnwysion y cyn-oesoedd.

Diddanwch undydd un-nos — yw'n cân ni,
Pwngc nawn a dechreunos ;
Meiriol wna'n ddiymaros,
Treulio'n wael tu a'r ail nos.

Fe sieryd rhai am fesurau — caethion,
Y coethant y feddyliau ;
Hwrtiant allan gyngau gau,
Prudd hustyng y pryddestau.

Pur ddiystyr o'r pryddestau — ydyw
Awdwr y caeth-odlau ;
E gyrch hwn i agor a chau — yn chwyrn,
Y taclau cedyrn, pwynt y clecciadau.

Eilwaith fe ddaw rhyw elyn — gwthia'i fys
Trwy gaeth fesur wedy'n ;
« At y bryddest, » ebe rhywddyn, — « nid cleccian
I godi cliccied englyn,
Trwy ragwant a gwant, mewn gwyn,
Rhyw abl antur i blentyn. »

« Llethir anian â'r llythrennau » — meddai,
« Maeddir meddylddrychau ;
» Cablu sydd, mai pwngc heb lesâu
« Y cadw swn ar y cydseiniau. »
Y plisgyn yn destyn dwg
Y sylwedd sy o'i olwg.

Rhywun o ganol y cylch.

Englyn unodl unsain.

Anadl wan « *un*odl *un*ion » — a ballo
Bellach o blith dynion ;
Cam yw ar les Cymru lon :
Aed yn fwyd i ynfydion !

Englyn unodl crwcca.

Nid yw'n deg i un dyn da
Hadl greccian « unodl Grwcca ; »
Y synwyr ar wyr yr â — o'r englyn
Neu'r rhimyn oer yma.

Englyn unodl cyrch.

Bwy garodd, o bai gywrain,
« *U*nodl G*yrch* » yn ei awdl gain ?
Ow ! eiddil iawn, yn ddilys,
Yr erys mewn arwyrain.

Prost cadwynog.

« *Proest cadwyn*og, » baglog bill,
A wada'r beirdd, aed ar ball ;
Na bo yn son heb un sill
Am hwn i'w gerdd mwy na gwall.

Prost cyfnewidiog.

Y *Proest* arall, dall yw'r dyn
Yr hwn fyddo'n geirio'i gân ;
Aed i'w fedd, gynghanedd hen,
Poenus yw 'm pen ei swn.

Cywydd deuair fyrion.

Ber odl byr air
Dwyodl d*euair*,
Yn fwyn ni fydd,
Gauad gywydd.

Cywydd deuair hirion.

D*euai*r h*iri*o*n*, da'r haeriad,
Ni all ei swydd un llesâd ;
Ei holl fri yw poeni pen,
A chaethiwo chwyth awen.

Awdl gywydd ou cywydd odhiaidd.

*Awdl gyw*ydd, derfydd ei dwrf,
A godwrf ei wag aden ;
Pwy byth gâr y trydar trwch
Yn ei ebwch anniben ?

Cywydd llosgyrnog.

Y Ll*o*sg*y*rn*og* oll sy garnedd
O ryw goegion eiriau gwagedd
Heb sylwedd ; be'sy waelach ?
Yr odl-honwyr a'i dilynant,
I loes warthus, wele, syrthiant,
Ni sythant dan ei sothaeh.

Toddaid.

Hwt ! *Dodd*aid, nid rhaid ond rhydd — fesurau
Dawn a golau, i danio'u gilydd ;
Plethiadau, diau nad ynt — ond ofer,
Yn hwy na nodder un onaddynt.

Byrr a thoddaid.

Torri hwn etto a raid, — a dryllier
Ei droellau mân, gweiniaid ;
Bo warth addef B*y*r *a* Thodd*aid*,
I gamarwain y Gomeriaid ;
Daliwn efrydd odlyn afraid
A'i ddull llegus o wydd llygaid ;
Daw hyn â gwres doniau graid, — a sylwedd,
Dda rinwedd, i'r enaid.

Hir a thoddaid.

Ond *Hir a* thodd*aid*, nid diwerth eiddo,
Nag annymunol i ganu mono;
Sain roed er addurn a synwyr drwyddo;
Ag nid cwyn oernych yw gwneyd cân arno;
Nid anhardd i fardd yw fo, — rhydd, tybiaf,
Ryw nwyd o'r llonnaf i'r hwn a'i darlleno.

Gwawdodyn byrr.

Y B*y*r *Wawdodyn*, ba raid ydoedd
Yma ei leisiau am aml oesoedd?
Nychu'r gân a wnewch ar g'oedd — trwy arfer
Ei fer sain ofer is y nefoedd.

Gwawdodyn hir.

Am *Hir Wawdodyn*, Gymry, dwedaf
Nad yw e ddifyr; ond addefaf
Ei ryw yn burach na'r un b*y*rr*af;*
Oni ddaw eisiau, ni ddewisaf
Hwn at gerdd, un etto gaf — yn fwy pur,
A goreu mesur yw y grymmusaf.

Huppynt byrr.

Y *Byr Hupp*ynt
Geir ohonynt, garw ei henwi!
Yn gwneyd anghlod
Afrwydd hynod, i farddoni.

Huppynt hir.

Huppynt arall
Gâr beirdd anghall;
Aed ar aball, wedi'i reibio;
Na chlyw urddawl
Awdwyr barddawl
Sain mwy denawl, son am dano.

Cyhydedd ferr.

*Ber Gyhyd*edd omedd immi
Wiw brydyddiaeth, abred iddi!
Daw ar bennill i'm dirboeni,
Nychwyd anian â'i chadwyni.

Cyhydedd hir.

Rhydlawd oer odlig,
Swm o dagwm dig,
Ceir o ganedig *Hir* G*yhy*dedd;
Gwael, orwael eiriad,
Ffol, afreidiol frad,
Ydyw i odliad a hyawdledd.

Cyhydedd nawbann.

Gâd, ddawn wiwber, G*yhy*dedd N*aw*b*an*,
A dal ei sillau diles allan;
Na wnawn ei oddef yn anniddan,
Neb, ar ddalennau barddol anian.

Clogyrnach.

Golwg arnat, o Gl*ogyrn*a*ch!*
Yn ymrygnu, wna im rwgnach;
Hen achlwm nychlyd
At gerdd wyt i gyd,
Llerw hefyd llwyr afiach.

Cyrch a chwtta.

*Cyrch a chwtt*a, Gwalia, gwel,
Anurddas in ei arddel;
Briwiodd achos beirdd uchel;
Daw ei amgen, od ymgel
Iawn i wychion ei ochel,
Wan fesur o nwyf isel;
Y dygn bill aed o gân bêr
Beth ofer, i boeth ufel.

Gorchest y beirdd.

Gwarchau Gorchest
Bruddwan bryddest,
Anian onest wenwyni;
Iaith gawn o'th gôl
Hoff iawn i ffol;
Min dawn mewn dol mynni di.

Cadwyn fyrr.

Codwn farrau C*ad*w*y*n ferr*af*
A rhown anaf ar hen enwau :
Meinwasg geiriau mwy ni's caraf,
Ag ni hidlaf egwan odlau.

Tawddgyrch cadwynog.

Tuedd gorchwyl y T*aw*ddg*y*rch*iad*
Yw rhoi rhwymiad, ar warr emyn ;
I gân anwyl, o ! gwenwyniad
A dirymiad yw ei rwymyn ;
Cynghaneddiad caeth ei blethiad
O genhedliad egwan odlyn,
Aed o'r caniad, gyfyng eiliad,
A'i arw nyddiad, i'r anoddyn ?

Plenydd.

Hust ! dwrw anystyriol,
Odli ffug anwadal, ffol ;
I ddamnio bardd mwy na bo
Hyn a gynnen, pan gano ;
Pa foesau ? 'waeth pwy fesur,
Os unir pwyll synwyr pur.
Nithier y gân, na thrig us
Yn ei phentwr ffuantus ;
Yna ceir yn ddinaccâu,
Ryw fesur a fo eisiau ;
Pur ddeunydd yw camp barddoniaeth,
Enaid i gerdd, *mesur* nid gwaeth.

Mawr yw na bai ymroad
Yrrai fardd glew ar fwrdd gwlad,
A roddo inni farddoniaeth
O radd uwch oll na rhydd na chaeth,
Un gano, ohono'i hunan
Fywyd cerdd o banfod cân.

Boed ieuengctîd | yn troi'n astud,
Y cyfnod hyfryd hwn,
Gan wneyd edrychiad | craff yn llygad
Prif ffeithiau'r cread crwn :
Boed gwlad ein tadau, | iaith ein mammau,
Yn dwyn testunau 'stor;
A'u hanadl hwythau'n genedlaethol
Yn ferw o fôr i fôr;
Boed iddynt yn ddiball
Wneyd lles y naill i'r llall,
Ac wrth brydyddu, | gwyliant bennu
Y dall i dwysu'r dall;
Na chaffed dyfnder, | gwefr, nac ager,
Nac uchder ser y nen,
Na haenau creigydd, maen na mynydd,
Ddim llonydd am y llen;
Gwyr ieuaingc goreu'r oes
Fo'n chwilio meusydd moes
Wrth reolau gwir athrylith
A'i thawel lith ddiloes;
Caed y celfau a'r gwyddorau
Nerth eu cynneddfau'n awr,
A doed y meddwl | sy dan gwmmwl,
I oleu'r Meddwl Mawr.

Nawseiddiol gyfansoddi
Yn oleu a chain wneloch chwi;
Ar wech len pan rowch linell,
Trowch y gwaith, treiwch ei gwell;
Dilynwch odlau anian,
Am y bo modd, ym mhob man.
Na fo ergyd byf, wyrgam,
Neu goeg lw, i lanw gwag lam,
Neu rith dammeg, na bo werth dimmau,
Na bottwm, i neb, at ei mwynhâu.

Caeth neu rydd, coethwn yr iaith,
A hardd luniwn gerdd lanwaith
Yn ddiwall; rhown iddi wynt,
Delweddau â hoedl iddynt;
Ac na fwriwn gân farw,
Pob pen ddim yn werth pw pw!
I fraenu, drwg-sawru'r siroedd,
Drewi o gylch y wlad ar g'oedd;
Ysgerbwd o segurbeth,
A dim byw, yn dom o beth!
Ysbïwn a oes bywyd
O awen ffraeth yn ei phryd;
Onid oes, trown hi naill du,
A chloddiwn fedd i'w chladdu.

Yn awr, os bardd, bardd o'r bôn,
Os cân, cân yn llawn ceinion;
Os pryddest, swp o riddyn,
Yn wydn ei gwedd, nid ewyn gwyn;
Llun y gerdd fo'n llawn o gorph,
Arwrgerdd gref a hirgorph;
Ffyrfach a ffyrfach fo'i ffurf,
Anffawd yw dernyn unffurf;
Glob aur o gerdd, heb glebr gwan,
Fferf ei henaid, ar ffurf anian
Yn trochioni trwy'i chanol,
Awenawl lif, nid hen lol.

Dowch, feirdd, ac na adewch fod,
Mwy, dlws aur am awdl sorod,
Neu bryddest am wobr ruddaur,
A'i gwyrth hi'n llai na gwerth aur,
Hyn sy wrthun, mae'n serthedd;
Arweinia bur awen i'w bedd.

Marw wylder marwoldeb
Yn nychu'r nwyf, ni char neb ;
Na wnewch ryw wachul gul gân,
Un deneu a dianian,
Yn brin o dân, bery un dydd
Yn loywder ar ein haelwydydd ;
Na ! cân a ddeil accen ddilyth,
A bri i'w bardd a bery byth ;
Dyna'r gân dywynna ar g'oedd,
Yn llusern i'r holl oesoedd ;
Nefol haul fydd cân fel hon,
Trig i ddal trag'wyddolion.

La *cynghanedd* n'est pas toujours absolument régulière chez ces deux poètes. On pourrait relever souvent la faute *prost i'r awdl* en matière de *cynghanedd* par allitération, ou le *gormodd odlau* (trop de rimes) ; mais, en somme, elle repose sur les mêmes principes et obéit aux mêmes lois. La coupe, dans les vers de dix syllabes à *gair toddaid*, lorsqu'il y a *cynghanedd* consonnantique, n'est pas toujours régulière.

Ce qu'il y a à retenir de cette discussion poétique, c'est que le plus brillant représentant des *mesurau caethion* admet sur un pied d'égalité tout genre de poésie pourvu que le poème soit irréprochable au point de vue de la pensée et de la langue. Les excès des métriciens et des poètes qui les suivaient avaient eu pour effet, en grande partie, de tarir l'inspiration. A la pauvreté du *bardisme savant*, la poésie libre, religieuse ou profane, dès le dix-septième siècle, pouvait opposer

des œuvres d'une inspiration élevée et d'un art quelquefois raffiné. Par une évolution logique, du dix-huitième au dix-neuvième siècle, la poésie savante, tout en conservant l'essentiel des principes, devint plus libre et dans ses systèmes et en matière de *cynghanedd*. En revanche, par un penchant invincible sorti de la constitution intime de la langue, la poésie libre tend à faire usage de la rime et de l'allitération dans une mesure plus ou moins large, sans s'astreindre aux règles compliquées de l'ancienne *cynghanedd*. Elle prend même à la poésie bardique ses systèmes sans admettre ses entraves. Il est à prévoir que les barrières déjà bien faibles parfois qui séparent les deux systèmes tomberont d'elles-mêmes et qu'il n'y aura plus, en Galles, de poésie *esclave* ou *enchaînée* et de poésie *libre*, mais des poètes plus ou moins *libres*, ou plus ou moins *compliqués*.

S'ils sont fidèles au génie de leur langue, une sorte de *cynghanedd* atténuée, plus libre, discrète, tenant compte de l'accentuation et observant la cadence naturelle de la langue, sera toujours un des principaux charmes de cette poésie essentiellement musicale (1).

(1) Voir tome II, livre III.

APPENDICE

Les systèmes dits LIBRES *(mesurau rhyddion).*

Le développement de ces systèmes coïncide avec la décadence de la métrique bardique. Les *mesures libres* viennent en grande faveur au dix-septième siècle, grâce au talent de certains poètes populaires, comme Huw Morus, et surtout sous l'influence de la poésie sacrée, de l'*hymnologie* du protestantisme gallois qui, s'adressant au peuple, avait besoin d'un instrument de propagande plus simple et plus intelligible que la versification bardique (1).

(1) L'*hymnologie* galloise a compté des poètes de grande valeur, en particulier *Williams Pant-y Celyn*, né en 1717, mort en 1799. V. Ashton, *Hanes*, p. 259 et suiv.

CHAPITRE PREMIER.

DE LA FIN DU QUATORZIÈME AU DIX-SEPTIÈME SIÈCLE.

De cette période, il nous est resté assez peu de documents, quoique nous sachions par les grammairiens que certains genres populaires comme les *carolau* (carols) devaient être de système libre.

Dans les œuvres de Iolo Goch (1), on remarque une sorte de pastorale (*y tri brenin o Gwlen*, les trois rois de Cologne), en systèmes *libres* ou sans *cynghanedd*. Les deux strophes qui forment en grande partie ce poème rappellent l'une le type *englyn unodl cyrch*, l'autre le *cywydd deuair hirion*.

La strophe la plus fréquente a quatre vers de sept syllabes, le premier, le deuxième et le quatrième étant de même rime, tandis que le troisième est de rime différente : sa dernière syllabe rime avec la coupe du quatrième (2).

Edrychad pawb ywch i ben;
Chwi a gewch weled y seren
Yn wyneb y gorllewin
Ir tri brenin o Gwlen.

(1) *Gweithiau*, p. 584 et suiv.
(2) *Ibid.*, p. 534-538, 541-544.

L'autre genre de strophe se compose de vers de sept syllabes, rimant deux à deux ; la loi de l'accent du *cywydd deuair hirion* n'est pas observée (1).

Cerdda i Vethlem Judi
Ac ymofyn o ddifri
I ble ir aeth y tri brenin (2)
A ddoeth o'r tir gorllewin.

Je ne vois guère à citer, en dehors de ce petit poème, jusqu'au dix-septième siècle, que les œuvres de Rhys Richard ; et encore appartient-il, par ses productions, plutôt à ce siècle qu'au précédent ; il est né, en effet, en 1569 et mort en 1644 (3).

Voici les systèmes que l'on remarque chez lui :

1° Un système analogue au type *cyhydedd hir :*

Mae'r ffeirad, mae'r ffermwr, mae'r hwsmon a'r crefftwr,
Mae'r bayli a'r barnwr a'r bonedd o'r bron
Bob un am y cynta, yn digio'r gorucha
Heb wybod p'un waetha eu harferion.

2° Une strophe de quatre vers de onze syllabes, rimant deux à deux :

Clywch adrodd gariad mab Duw at y byd,
Pan ddaeth ef o'r orsedd i'n prynu mor ddrud,
Er peri i chwi gofio am gariad mab Duw,
A'i foli'n wastadol tra fyddoch chwi byw.

(1) *Gweithiau Iolo Goch*, p. 540.
(2) Lisez : *I ble'r aeth.*
(3) Gweirydd ap Rhys, *Hanes*, p. 333 et suiv.

3° Strophe de quatre vers de huit syllabes, rimant deux à deux :

Er croeshoelio'r Iesu drosom,
A rhoi taliad llawn amdanom,
Eto ni bydd neb cadwedig,
Ond a gretto ynddo'n unig.

4° Le système préféré de Richard est la strophe de quatre vers de sept syllabes : le premier et le troisième vers commencent par une syllabe accentuée ; le deuxième et le troisième, par une syllabe non accentuée :

Ni wnaeth Duw un gene 'rioed,
Mewn tir mewn coed, mewn dyfnder,
Nes partoi ei ymborth tyn
I'r geneu cyn ei ganer.

5° Un autre genre de strophe qu'il affectionne se compose aussi de quatre vers de sept syllabes, le troisième vers commençant par une syllabe accentuée :

A dysc yn brudd gydnabod
Nad oes o flaen y Drindod
Iawn am bechod ond gwaed Crist
A'i angau trist a'i 'fuddod.

C'est aussi le genre *unodl cyrch.*

6° La strophe a quatre vers ; le premier, le deuxième et le quatrième ont sept syllabes, tandis que le troisième

en a huit ; la syllabe initiale de ce vers de huit syllabes n'est pas accentuée :

A gwybydd fod Duw'n foddlon
I'r iawn a wnaeth Christ drosom,
Ac er ei fwyn yn barod iawn
Roi perdwn llawn i'r ffyddlon.

CHAPITRE II.

DU DIX-SEPTIÈME SIÈCLE JUSQU'A NOS JOURS.

A. — *Poésie profane.*

Deux types principaux se signalent à l'attention : l'un mixte, qui forme un compromis entre les systèmes *enchaînés* et les systèmes *libres :* on y trouve une *cynghanedd* mitigée ; l'autre caractérisé par la rime finale ou interne.

§ 1er. — *Système mixte.*

Ce système apparaît de moins en moins, à mesure qu'on s'éloigne du dix-septième siècle.

DIX-SEPTIÈME SIÈCLE.

EDWARD MORUS (p. 17-20) (1).

Nid oes un deyrnas dan y ne',
Nid oes na gwlad na thrad na thre'
Mid oes na man, na llan na lle,

(1) Cf. Lewis Jones, *Caniadau Cymru*. Bangor, 1897, p. 17-20. Edward Morus mourut en 1689.

Na chyfle ond i chwilio;
Nid oes nag oes na blwyddyn faith,
Mis na dydd, na munud chwaith
Na bo nhwy oll yn deall gwaith — I gogio.

Y gwr gownog enwog iawn
Yn ei wisg a'i ddysg a'i ddawn,
A'i ymadroddion llon yn llawn,
A hynny am gyfiawn bledio;
Os chwi a roiff yr aur o'i flaen,
Fe chwery hwn *Legerdemain*,
Ma ganddo driciau Lloegr a Spaen — I gogio.

CAROL CIWPYD (*Caniadau*) (p. 21).

Fel 'r oeddwn nos Wener yn cymryd fy 'smwythder,
O'm poen ac o'm blinder yn nyfnder y nos;
Ces freuddwyd trwm-hunog, fe gofia'r fron ddrylliog
Hyn yma o beth ofnog bythefnos.

Clywn esgill yr hwylwynt a nerth y Deheuwynt,
A swn megis corwynt yn curo 'mron gaeth,
A'r gwydyr yn siglo a goleu'r lloer arno
A dychryn yn taro i'm naturiaeth.

Troi'ngolwg i 'styriaeth a chael gweledigaeth,
Pwy oedd mewn ias afiaith yn sefyll ger llaw;
Bachgennyn anwastad, sef Ciwpyd, Duw'r Cariad,
A'i saethiad ar ddaliad ei ddwylaw.

EDWARD SAMUEL (*Ibid.*, p. 29-32) (1).

Y teulu hynod haelion,
Cydganwn yn deg union

(1) C'est le genre *cywydd llosgyrniog*. Samuel naquit en 1674 et mourut en 1748.

Fawl gydlais fel gaeadlon
  Ar dirion hinon ha';
Ac eiliwn gyda'n gilydd
Yn llawen i'n pen Llywydd
Ganmoliaeth helaeth hylwydd
  Am ddedwydd dywydd da
Mae creaduriaid mudion
Bwystfilod a phlanhigion,
Yn rhoi gogoniant union
  Yn rhadlon yn eu rhyw;
A pham na chanwn ninnau
Yn beraidd hwyr a boraŭ
I ganmol nerthol wyrthiau
  A datgan doniau Duw?

DIX-HUITIÈME SIÈCLE.

EDWARD RICHARD (1).

Y 'deryn pur a'r adain lâs
  Bydd imi'n was dibrydar,
O brysur brysia at y ferch,
  Lle rhoes i'm serch yn gynnar;
Dos di' ati, dywed wrthi,
'Mod i'n wylo'r dwr yn heli
'Mod i'n irad am ei gwelad,
Ac o'i chariad yn ffaelu a cherddad;
O, Duw faddeuo i'r hardd ei llun
Am boeni dyn mor galad!

(1) *Caniadau*, p. 41. Edward Richard naquit en 1714 et mourut en 1777.

Du même (p. 43-51).

BUGEILGERDD (*Bucolique*).

Pwy ydyw'r dyn truan fel hyn wrtho'i hunan
Rwy'n ganfod yn cwynfan, fel baban dan berth,
A'r dwr dros ei ddeurudd yn gostwng dan gystudd?
Myneged i Ruffudd ei drafferth.

Du même.

BUGEILGERDD (p. 51-52).

Hywel.

Hoff iawn oedd gorffennu ty haf wrth Lyn Teifi
A'i donnau'n ymdaenu yn loewddu at y lan,
Mae gweled ein gilydd yn llunio llawenydd,
Cawn beunydd gân newydd gan Iwan.

Iwan.

Mae Hywel mor hwylus, mor wych, ac mor awchus
Wr enwog o'r ynys, gardd felus, gerdd fwyn,
Min miwsig mwy moesol, ac araith ragorol,
Mor siriol a gwennol y gwanwyn.

Hywel.

Yn fore myfyrio mwyn gân a min Gweno
Yw golud bugeilio a rhodio'n wr rhydd,
Yn llwm ac yn llawen; mae'n amlach brig brwynen
Na deilen erfynen ar fynydd.

Iwan.

Pa beth a dâl canu a diddan brydyddu,
A'm defaid o'm deutu yn llamu wrth y llyn,
Ac eraill wrth garu; a'i swyno a chusanu,
Yn denu'r fain aelddu, f'anwylddyn.

Hywel.

Dyn beunydd dan benyd wyf finnau'r un ffunud,
Heb obaith am iechyd i'm clefyd a'm clwyf,
Ond annerch lliw'r hinon â phinnau drain duon,
A danfon penillion pan allwyf.

Iwan.

Dibarch gan y merched a fydd dyn diniwed;
Ni fynnant hwy glywed na gweled y gwr,
Gwarth ydyw, gwrthodant goegenod, cydganant
A chwarddant am lwyddiant ymladdwr.

LEWIS MORUS (1).

Gwych gan bobol onest lân
Oleuni tân a channwyll;
Gwych gan wylliaid fod y nos
Mewn Teios yn y tywyll;
Gwych gen innau glywed son
Am grogi lladron Grigyll

Pentref yw didduw didda
Lle'r eillia llawer ellyll,

(1) *Caniadau*, p. 56. Né en 1700, mort en 1765.

Mor-yspeilwyr, trinwyr trais,
  A'u mantais dan eu mentyll,
Cadwed Duw bob calon frau
  Rhag mynd i greigiau Grigyll.

Du même (p. 59).

Er a welais dan y ser
  O lawnder, glewder gwledydd,
O gwrw da a gwyr i'w drin,
  A gwin ar fin afonydd,
Goreu bir a goreu bwyd
  A rannwyd i Feirionnydd.

TWM O'R NANT (1) (p. 67).

Clywch dderchafiad geirwir gariad,
Pur bwyth bwriad popeth byw;
Dechreuol wreiddiol ryw, 'does unrbyw heb fy swydd;
Rwyf fi'n gynhyrfiad gwres cenhedliad;
Teimlad cariad, magiad mwyn,
A ddeil bob peth i'mddwyn
I'w ryw yn addfwyn rwydd.
Yn llwybr natur noeth,
Pwynt enwog eirias, tân o gariad,
A'm bwriad yma'n boeth;
Drwy bob creadur byw, hynod yw anian ddoeth;
Mae'r llewod mawr eu llid, a phob aflan fwystfil byd,
Yn cynniwair i'w cenawon yn gyson iawn i gyd,
A chariad piau'r mawl, allu hawl, felly o hyd,

(1) Né en 1739, mort en 1810.

Du même (p. 69).

Tosturus yw ystyried
  Wrth weled anferth wall,
A'r gofid byd sy'n gwasgu,
  'Mron llethu hwn a'r llall.
I ble troir, na bo bloedd trwst,
  Ac anian ffrwst, rhyw gwynion ffraeth,
A dynol blant yn dyn eu bloedd,
  Eu bod yn goedd a'u byd yn gaeth?
Prudd, prudd, gwae anfon swn gofidiau sydd,
  Yn gas o ran, gwir eisiau 'mroi
Am rym i ffoi dan rwymau ffydd.
  Ple, ple bydd dyn yn esmwyth dan y ne?
Cheir odid beth o rydid byd
  Heb gadwyn gofid gydag e'.

Bardd Nantglyn (1) (p. 71).

A fedd synhwyrau diau dowch,
Ar undeb trowch i wrando,
Yn un fwriad gan fyfyrio,
Fel mae'n llethrog ddydd yn llithro;
Ni rusir mono i aros munud,
Gwalch ar hedfan, edn buan ydyw'n bywyd.

Du même (p. 73).

Ond diddan y dyddiau'n ol,
  A doniol oedd y dynion,
Gymerent fwyn ddifyrrwch clau
  Wrth sain y tannau tynion?

(1) Né en 1769, mort en 1835.

Fe ddaliai draw feddyliau drwg
  O'r golwg ac o'r galon.

Hoff yw clywed merched glân
  Yn lleisio cân ar dannau,
A hoff yw gwrando meibion gwych
  Yn datgan drychfeddyliau ;
Pob un a diddan fryd yn dal
  I gynnal corddiganau.

Du même (p. 85).

Y gangen wen ei gwawr,
Tro di'n awr, tyrd yn nês,
Fwyna 'rioed, feinir wen, lawen lês ;
Mynna'n wir, sicr son,
Lunio ton lân i ti ;
Cei'n rhwydd oherwydd hawl
Gan o fawl gennyf fi.
Ordeiniodd Duw ei hunan
Gysylltu dau'n yr unman
Hyn yw tueddiad diddan
Yn gynnes iawn ac anian,
Doniol ran dynol ryw.
Gobeithio cawn ni'n pwrpas,
Cu foddion, waith cyfaddas,
I fynd trwy gariad gwiwras
Ryw bryd mewn glan briodas,
Yn ddigas addas yw.

Dafydd Ionawr (1) (p. 88).

Iehofa hael,
Dydi, o dâd,

(1) Né en 1751, mort en 1827.

Glywi'mhob gwlad
Gri gweddi'r gwael.
O, gwel fi'n isel yn awr,
Iôr hedd, o flaen d'orsedd di!
Tro, Iôn, d'olygon i lawr
O'r nef wen fawr arnaf fi;
Ond Ti, ein Twr,
12 Dywysi'n glau dy weision glân drwy dan a dwr.
O d'wydd nid âf;
Pa glau ddur glo,
Pa fryn, pa fro
Na welo Naf?
Pe'mgodwn, pe hedwn hynt
Ar laswen aden y wawr
Neu olwynion gwylltion gwynt,
I'r tonnog fôr, murmurog, mawr:
Ym mynwes môr
Byddaf o hyd, hyfryd yw hyn, dan edyn Iôr.

DIX-NEUVIÈME SIÈCLE.

ROBERT AB GWILYM DDU (1) (p. 91).

8 O hyd yr oes pechadur wyf,
7 Dan glwyf, fy nwyf yn afiach,
Yn dwyn fy mriwiau dan fy mron,
Archollion pwy erchyllach?
O waeledd nerth ni welodd naf
Tirionaf neb truanach?

Anghofio'n dost fy nghyfiawn Dwr,
Gwir noddwr trugareddau,

(1) Né en 1767, mort en 1850. C'est le type *awdl gywydd*.

Heb ado drwg y byd a'i drais,
Taer redais ar ei rwydau,
Pob ynfyd naws yn draws a drodd,
Ymledodd dros fy mlodau.

ALUN (1) (p. 106).

F'anwyl ferch, delw'm serch, clyw annerch clwy 'enaid,
Troist yn ddu'r cariad cu, a chanu'n ochenaid?
A oedd un llaw drwy'r dref draw i nharaw'n annhirion?
A oedd ymhlêth, ar y peth, ddwrn yr eneth union?
Yn wir dy wg dagrau ddwg i'r golwg o'r galon,
Oni chaf hedd, af i'm bedd i orwedd yn wirion.

CAWRDAF (2) (p. 130).

(*Cwynfan y Dall*).

Yn fy ngalar am fy ngolwg
Mawr a gwynais ym Morgannwg,
Urddau natur heirdd o 'neutu,
A mi'n fulaidd ymbalfalu
12 Heb un gannwyll wedi'm geni — yn cyfateb
8 Duoer wyneb o drueni,
12 A du lennau dioleuni — heb gael canfod
8 Mannau hynod ddim ohoni.

EBEN FARDD (3) (p. 148).

Dan bren tewfrig yn y goedwig,
Neillduedig, unig wyf

(1) Né en 1791, mort en 1851.
(2) Né en 1795, mort en 1848.
(3) Voir plus haut, p. 287; cf. *Gorchest y beirdd* et *hypynt hir*.

O glyw hudol dwrf daearol,
Maswedd ac anianol nwyf.
Dadwrdd pobloedd drwy'r dinasoedd
Uchel floedd, ni chlywaf fi;
Ni raid achwyn rhag eu gwenwyn
Ym mol llwyn yn ymyl lli?

Du même (p. 152).

Fy anwyl gariad, teimlad dwys,
Yr hon sy'n cynnwys cwyn,
Sef canu'n iach, f'anwylyd fach,
I'th lon gyfeillach fwyn.

GWERYDDON (1) (p. 166-167).

Mae'r gwynt yn uwch, mael luwch gerllaw,
O, mae hi'n oer!
Er gwaeled wyf, i'r gwely daw,
O mae hi'n oer!
Mae'n arw fod mewn oeraf fan
Rhyw unig wr mor hen a gwan,
Yn welw ei rudd, yn wael ei ran,
O, mae hi'n oer!
O, na chai hen greadur gwan,
Cyn llechu'n llwyr yn llwch y llan,
I'w einioes fêr rhyw gynnes fan;
O, mae hi'n oer!

TALHAIARN (2) (p. 177).

Gwyn fy myd pe gwelwn Gymru
A'i llu anwyl yn llawenu,

(1) L'auteur vit encore; le poème a été écrit en 1849.
(2) Né en 1810, mort en 1869.

A phob llan a thref yn crefu
Mwy o gynnydd, mwy o ganu
Cymru lân, gwlad y gân,
Cymru lân, gwlad y gân!
Hyfrydwch bardd yw arddel
Tonau mêl y tannau man.

GLASYNYS (1) (p. 217-219).

Glyn ir Wnion.

Mor dlws yw Glyn yr Wnion :
Yr afon loew lan
Ddolenna drwy'r ddol lanwedd,
A sua felus gân.
Ei glennydd teg sy'n gleinio
Mewn gwisg o wyrdd a gwyn ;
Y breilw mân a wenant
Ar loewon llon y llyn.
Bargodir Glyn yr Wnion
A derw'n goedfron gref,
Ac ar ei eithaf weithion
Yn drofa saif y dref ;
Mae'r glyn yn dlws odiaethol,
Wrth draed y bryniau bân.
Mor anwyl glyn meirionnydd,
Tawelaf, fwynaf fan!
Ei ddolydd ir Meillionnog,
A'i feusydd llwythog llawn,
Ac ynddo gerddi gwyrddion
Yn drwm o ffrwythau gawn.

(1) Né en 1828, mort en 1870.

§ 2. — *Rime.*

Au point de vue de la rime, on peut distinguer quatre types : 1° les vers riment deux à deux ou alternent; 2° la rime est finale et interne; 3° le premier vers de chaque distique est sans rime; le deuxième seul rime avec le deuxième du distique suivant; 4° les formes de la strophe et les rimes participent des types précédents et constituent un type plus varié.

Premier type : *Rime finale.*

Les vers riment deux à deux ou les rimes sont alternées (1). Les strophes sont plus ou moins variées.

PETER LEWIS (2) : *Cathl y gair Mwys.*

Hi aeth, f'anwylyd, yn Glan-gaea',
Ti wyddost wrth y rhew a'r eira;
Dywed imi'm ddigyfrinach,
Pam na wisgi lewis bellach (3)?

EDWARD RHISIART : *Herodraeth ir ehedydd* (4).

'Rwy'n wylo dwr oddiwrth fy nghalon,
'Rwy'n dwyn yn deg yngolwg dynion;

(1) Mes exemples sont empruntés au recueil *Caniadau Cymru* (v. plus haut).

(2) *Caniadau*, p. 39; l'auteur vivait au dix-septième siècle.

(3) Les vers sont de huit syllabes. Cf. la strophe *cyhydedd ferr* pour le nombre des syllabes.

(4) *Caniadau*, p. 42; l'auteur naquit en 1714 et mourut en 1777.

'Rwy'n bwrw gwallt fy mhen gan hireth,
Am y ferch sy 'mhell ysyweth,
O wele 'nghyflwr am fy ngeneth (1) !

TEGID (2).

Voir plus haut la strophe de quatre vers de huit syllabes.

ALUN (3).

Page 99, strophe de six vers de huit syllabes rimant deux à deux ; pages 100, 110, strophe de quatre vers de huit syllabes rimant également deux à deux ; page 107, strophe de huit vers de huit syllabes rimant deux à deux.

Du même.

A welaist, a 'dwaenaist ti Doli,
Sy a'i defaid ar ochr Eryri ?
Ei llygad byw llon
Wnaeth friw ar fy mron
Melusach na'r diliau yw Doli (4) !

IEUAN GLAN GEIRIONYDD (5).

7 'E ddiflannodd clog y gwlaw
4 F'anwylyd wiw !

(1) Les vers sont en général de neuf et de huit syllabes.
(2) *Caniadau*, p. 97. L'auteur naquit en 1793 et mourut en 1852.
(3) Né en 1798, mort en 1828.
(4) *Caniadau*, p. 104.
(5) *Ibid.*, p. 114. Né en 1795, mort en 1826.

7 Oedd yn toi'r Eryri draw,
4 F'anwylyd wiw?
7 Mae yr haul ar hyn o dro
7 Yn goreuro bryniau'n bro
7 I'r hafoty rhoddwn dro,
4 F'anwylyd wiw!

GWENFFRWD (1).

12 O gwnewch imi feddrod wrth ffrydlif y mynydd,
11 Na cherfiwch un linell i adrodd fy hynt,
12 Ac yno telored glas donnau'r afonydd
11 Eu cerddi yn gymhlith a chwiban y gwynt.

Du même.

8 I nodi'r man rhoir meini hardd
6 Lle hun rhai hoff mewn hedd
8 Ac englyn geir o fri gan fardd
6 Neu wers i gofio'r bedd;
8 Ond maen ni cheir er cof na chwyn,
8 I nodi bedd y morwr mwyn (2).

JOHN JONES, LLANGOLLEN (3).

8 Plygu mae y llysiau gwyrddion
4 Uwch ben ei bedd;
8 A'r rhosyn leda'i wridog ddwyfron
Uwch ben ei bedd.

(1) *Caniadau*, p. 132. Né en 1810, mort en 1834.

(2) *Ibid.*, p. 133-134; p. 136, strophe également de huit vers de huit et six syllabes.

(3) *Caniadau*, p. 141. Dix-neuvième siècle.

Ocheneidiau tor ei chalon
Sugnwyd gan y trist awelon,
Glywai'm mrig yr yw hiraethlon
Uwch ben ei bedd.

Caledfryn (1).

Strophe de quatre vers de huit syllabes rimant deux à deux.

Ioan Emlyn (2).

Strophe de huit vers de huit et sept syllabes alternant : rimes alternées.

